sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# Diwygiedig 2018-2033
## Cynllun Datblygu Lleol

# Papur Pwnc
# Asesiad Seilwaith




Diweddariad Ebrill 2024

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

**<u>Noder: Mae hon yn ddogfen sy'n esblygu. Bydd newidiadau pellach yn cael eu gwneud yn ystod cyfnod y Cynllun i sicrhau bod yr Asesiad Seilwaith yn cael ei ddiweddaru.</u>**

# Contents


**1. Y Cefndir** ........ 4

2. Diben yr Asesiad Seilwaith ........ 4

**3. Diffinio Seilwaith** ........ 5

**4. Cyd-destun Polisi** ........ 6

**4.1 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040** ........ 6

**5 Y Sefyllfa Bresennol** ........ 7

**5.1 Newid Demograffig:** ........ 7

**5.9 Cyfraniadau gan Ddatblygwyr** ........ 8

**5.10 Cytundebau Adran 106** ........ 8

**6. Trafnidiaeth a Phriffyrdd** ........ 8

**6.1 Y Rhwydwaith Ffyrdd a Phriffyrdd** ........ 8

**6.8 Teithio Llesol** ........ 11

**6.13 Y Rhwydwaith Rheilffyrdd** ........ 12

**7. Addysg** ........ 12

**8. Cyfleusterau Gofal Iechyd** ........ 15

**9. Seilwaith Gwyrdd a Glas** ........ 18

**9.1 Beth yw Seilwaith Gwyrdd a Glas?** ........ 18

**9.3 Bioamrywiaeth** ........ 18

**9.4 Ymdeimlad o le** ........ 19

**9.5 Newid yn yr Hinsawdd** ........ 19

**9.6 Iechyd a Llesiant** ........ 19

**9.7 Yr Economi** ........ 20

**10. Mannau Agored** ........ 20

**10.1 Diogelu Mannau Agored** ........ 20

**10.2 Mannau Agored Newydd** ........ 20

**11. Seilwaith Cymdeithasol** ........ 22

**11.1 Cyfleusterau Cymunedol** ........ 22

**11.2 Hamdden a Chwaraeon** ........ 22

**11.5 Cymorth gyda'r Iaith Gymraeg** ........ 23

**12. Rheolaeth Amgylcheddol** ........ 24

**12.1 Perygl o Lifogydd – Diweddariad i TAN15 a gwaith parhaus yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd:** ........ 24

**12.8 Parthau Map Cyngor Datblygu, fel y'u mynegir yn TAN 15 (2004 + TAN15 Drafft wedi'i ddiweddaru)** ........ 26

**12.10 Draeniad** ........ 26

12.14 Ailgylchu a Rheoli Gwastraff ........ 27
13. Seilwaith Cyfleustodau ........ 28
13.1 Dŵr a Dŵr Gwastraff ........ 28
13.5 Ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol (ACA) ........ 28
13.11 Gwaredu Dŵr Wyneb Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli ........ 29
13.17 Trydan ........ 30
13.21 Band Eang a Thelathrebu ........ 31
Atodiad 1 ........ 33

# 1. Y Cefndir

1.1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi paratoi'r adroddiad hwn i ategu ei bolisïau cynllunio ar seilwaith fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig. Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru) yn nodi bod darparu seilwaith digonol ac effeithlon i gyflawni'r cynllun yn hanfodol. Mae seilwaith digonol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaethau megis addysg a chyfleusterau iechyd ynghyd â thrafnidiaeth, cyflenwad dŵr, carthffosydd, rheoli gwastraff cynaliadwy, trydan (y cyfleustodau) a thelathrebu, yn hanfodol er budd cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

1.2 Fel isafswm, dylai seilwaith digonol fodoli i gefnogi lefel bresennol yr angen; fodd bynnag, dylid ystyried anghenion y dyfodol a chynllunio ar eu cyfer yn unol â hynny. Er y gellir nodi rhai o'r anghenion hyn yn awr, mae amgylchiadau'n newid dros amser a bydd hyn yn sicr yn golygu na ellir rhagweld rhai anghenion yn y dyfodol ar hyn o bryd.

1.3 Mae pwysigrwydd seilwaith yn mynd y tu hwnt i gefnogi ein cymunedau. Mae'n sail i gystadleurwydd economaidd a chyfleoedd i aelwydydd a busnesau gyflawni ffyrdd sy'n ddymunol yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol o fyw a gweithio. Gall seilwaith sydd wedi'i ddylunio'n wael neu wedi'i leoli'n wael waethygu problemau yn hytrach na'u datrys.

1.4 Bydd seilwaith yn ffactor allweddol wrth bennu i ba raddau y gellir gwireddu'r weledigaeth a ymgorfforir yn y Cynllun Datblygu Lleol yn llwyddiannus. Bydd seilwaith digonol yn ffactor pwysig wrth sicrhau bod modd cefnogi'r lefel arfaethedig o ddatblygu a mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau sy'n deillio o ddatblygu.

# 2. Diben yr Asesiad Seilwaith

2.1 Bydd yr Asesiad Seilwaith yn dangos bod y CDLl diwygiedig yn cael ei weithredu'n effeithiol trwy ddarparu a chynnal seilwaith perthnasol newydd a phresennol. Ei nod yw cyflwyno dull cydlynol o ddatblygu, ac o ddarparu seilwaith, i sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn rhoi straen diangen ar gyfleusterau a chymunedau presennol. Mae angen yr holl

fesurau seilwaith a nodir yn yr Asesiad Seilwaith naill ai i wireddu’r datblygiad, neu maent yn ofynion polisi sydd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni amcanion sylfaenol y CDLl diwygiedig.

2.2 Bydd yn sefydlu graddfa'r seilwaith sydd yn bodoli ar hyn o bryd ond bydd hefyd yn ceisio nodi lefel y seilwaith a fydd yn cael ei ddarparu ac y bydd ei angen mewn blynyddoedd i ddod.

2.3 Lle bo'n bosibl bydd yn nodi'r sefydliadau sy'n gyfrifol am ddarparu'r seilwaith, sut y caiff y seilwaith hwn ei ddarparu, a phryd y disgwylir iddo gael ei gyflawni.

## 3. Diffinio Seilwaith

3.1 Mae Deddf Cynllunio 2008 yn rhoi diffiniad eang o'r hyn yw seilwaith. At ddibenion y ddogfen hon, mae'r eitemau seilwaith yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i gefnogi'r broses o gyflawni'r CDLl diwygiedig wedi'u nodi isod:

**Trafnidiaeth**

- Rhwydwaith Ffyrdd a Phriffyrdd
- Llwybrau Teithio Llesol

**Ysgolion**

- Blynyddoedd Cynnar
- Cynradd,
- Uwchradd

**Seilwaith Gwyrdd a Glas**

- Mannau Agored
- Mannau Gwyrdd a Rhandiroedd
- Mannau Chwarae

**Seilwaith Cymdeithasol**

- Cyfleusterau Cymunedol
- Hamdden a chwaraeon
- Cyfleusterau Cymunedol
- Cymorth gyda'r Iaith Gymraeg

- Iechyd
- Gofal Iechyd Sylfaenol ac Eilaidd

**Rheolaeth Amgylcheddol**

- Perygl Llifogydd
- Draeniad
- Ailgylchu a Rheoli Gwastraff

**Gwasanaethau Cyfleustod**

- Cyflenwad dŵr a Dŵr Gwastraff
- Trydan
- Band Eang a Thelathrebu

## 4. Cyd-destun Polisi

4.1 Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040**:** Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040'. Mae Cymru'r Dyfodol yn gynllun datblygu 20 mlynedd, a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ac sy'n ymdrin â materion mawr fel yr economi, tai a'r amgylchedd. Mae hefyd yn nodi lle y dylai datblygiadau sylweddol yn ymwneud ag ynni, trafnidiaeth, dŵr a gwastraff ddigwydd. Mae Cymru'r Dyfodol yn gynllun gofodol; mae hyn yn golygu ei fod yn gosod canllawiau ar gyfer lle y dylem fod yn buddsoddi mewn seilwaith a datblygu ledled Cymru gyfan. Mae Cymru'r Dyfodol a'i ganllawiau wedi'u dylanwadu'n fawr gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod datblygu a defnyddio tir yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Y Cynllun yw'r haen uchaf o gynlluniau datblygu ac mae'n canolbwyntio ar faterion a heriau ar raddfa genedlaethol. Mae ei natur strategol yn golygu nad yw'n dyrannu datblygiadau i bob rhan o Gymru, ac nid yw ychwaith yn cynnwys polisïau ar bob defnydd tir. Mae'n fframwaith yr adeiledir arno gan Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) ar lefel ranbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) ar lefel awdurdod lleol. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi lleoliad y seilwaith a'r datblygiadau newydd. Mae'n ofynnol bod CDSau a CDLlau yn cydymffurfio â Cymru'r Dyfodol a rhaid eu diweddaru'n gyson er mwyn sicrhau eu bod hwy a Cymru'r Dyfodol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol.

4.2 Mae Cymru'r Dyfodol yn awgrymu y dylai twf yn rhanbarth y Canolbarth a'r De-orllewin ganolbwyntio'n bennaf ar ardal Bae Abertawe a Llanelli ac mewn rôl eilaidd, trefi'r Hafan, Caerfyrddin, Llandrindod, y Drenewydd ac Aberystwyth.

# 5 Y Sefyllfa Bresennol

**5.1 Newid Demograffig:** Mae newid demograffig yn dylanwadu ar y ffordd y caiff y seilwaith presennol ei ddefnyddio a'r angen am seilwaith newydd

5.2 Yn y CDLl diwygiedig o dan Bolisi Strategol 3: Dosbarthu Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau, nodir bod y ffigur gofyniad tai ar gyfer y Sir yn seiliedig ar yr Adroddiad Tai a Thwf Economaidd gan Turleys. Fel rhan o'r gwaith hwn, rhoddodd Edge Analytics ffigurau demograffig wedi'u diweddaru i Turleys. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd twf poblogaeth wrth gyflawni strategaeth y CDLl.

5.3 Ceir tri ffactor sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar newid demograffig

- Newid Naturiol - Gwahaniaethau rhwng nifer y genedigaethau a'r marwolaethau a phobl sy'n byw'n hirach
- Ymfudo Mewnol – Mudo o fewn y DU
- Ymfudo Rhyngwladol – Mudo i mewn ac allan o wledydd tramor

5.4 Mae newid naturiol yn parhau i gael effaith negyddol ar dwf poblogaeth yn Sir Gaerfyrddin, gyda nifer y marwolaethau yn parhau i fod yn uwch na nifer y genedigaethau.

5.5 Mae mudo mewnol net yn parhau i fod yn ffactor amlwg sy'n sbarduno newid yn y boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin. Amcangyfrifwyd bod maint y mewnlif net o fannau eraill yn y DU wedi tyfu dros gyfnod y cynllun. Yn ystod y tair blynedd diwethaf mae wedi dychwelyd i lefelau a welwyd ddiwethaf yn ystod y blynyddoedd cyntaf yn dilyn y flwyddyn 2000, gyda mewnlif net cyfartalog o 1,265 o bobl y flwyddyn wedi'i gofnodi dros y pum mlynedd hyd at 2020. Mae'r mewnfudo net hwn wedi parhau i wrthbwyso'r gormodedd parhaus o farwolaethau dros enedigaethau, sydd hefyd wedi bod yn tyfu dros gyfnod y cynllun.

5.6 Nid yw mudo rhyngwladol yn cael cymaint o effaith ar newid yn y boblogaeth â ffactorau eraill. Nifer y cofrestriadau Rhifau Yswiriant Gwladol yn 2018 oedd y trydydd isaf ers 2008, sef 473, ac roedd yn gyson â'r flwyddyn flaenorol.

5.7 Ers 2001 mae poblogaeth Sir Gaerfyrddin wedi bod yn cynyddu'n raddol. Mae cynnydd o 2.2% wedi bod ym maint poblogaeth Sir Gaerfyrddin rhwng 2011 a 2021, mae hyn yn uwch

na’r cynnydd cyffredinol ar gyfer Cymru (1.4%). Mae twf cynyddol poblogaeth ardal yn uniongyrchol gysylltiedig â nifer y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd eu hangen yn yr ardal. Felly, mae'n bwysig sicrhau bod seilwaith digonol ar gael i ddygymod â'r twf yn y boblogaeth.

5.8 Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am newid demograffig a'r boblogaeth yn y Papur Pwnc Amcanestyniad Poblogaeth ac Aelwydydd.

## 5.9 Cyfraniadau gan Ddatblygwyr

**5.10 Cytundebau Adran 106:** Mae’r CDLl diwygiedig yn nodi y gall y Cyngor geisio cyfraniadau gan ddatblygwyr trwy rwymedigaethau cynllunio i liniaru effeithiau datblygiadau penodol, ac i hwyluso’r broses o gyflawni polisïau a chynigion y cynllun. Dywed Polisi Cynllunio Cymru y gall cyfraniadau gan ddatblygwyr helpu i ddiwallu anghenion lleol, neu sicrhau manteision a fydd yn gwneud y datblygiad yn fwy cynaliadwy. Mae Adran 106 (S106) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn caniatáu i awdurdod cynllunio lleol (ACLl) ymrwymo i gytundeb cyfreithiol rwymol neu rwymedigaeth gynllunio gyda thirfeddiannwr mewn cysylltiad â rhoi caniatâd cynllunio.

Gall datblygwyr a’r awdurdod cynllunio lleol gytuno ar rwymedigaethau cynllunio i:

- gyfyngu ar ddatblygu neu ddefnyddio’r tir;
- mynnu bod gweithrediadau neu weithgareddau yn cael eu gwneud ar y tir, ynddo, oddi tano neu drosto;
- mynnu bod y tir yn cael ei ddefnyddio mewn modd penodedig; neu
- fynnu bod taliadau’n cael eu gwneud i’r awdurdod naill ai mewn un swm neu fel symiau cyfnodol

5.11 Mae’n bwysig nodi y dylid ceisio rhwymedigaethau cynllunio dim ond pan fyddant yn:

- Angenrheidiol
- Yn uniongyrchol gysylltiedig â’r datblygiad arfaethedig
- Yn berthnasol i’r datblygiad arfaethedig o ran eu maint a’u math i’r graddau sy’n deg ac sy’n rhesymol

# 6. Trafnidiaeth a Phriffyrdd

**6.1 Y Rhwydwaith Ffyrdd a Phriffyrdd:** Gwasanaethir y Sir gan rwydwaith ffyrdd enfawr. Caiff gwelliannau cyson eu gwneud i'r rhwydweithiau ffyrdd. Mae'r gwelliannau hyn yn gwella

diogelwch a mynediad i gerddwyr a beicwyr, amser teithio, lleihau tagfeydd, cadw traffig i symud, lleihau effaith negyddol traffig ar bobl a'r amgylchedd a chefnogi cynigion trafnidiaeth gyhoeddus.

6.2 Bydd llwybrau trafnidiaeth, gwelliannau a chyfleusterau seilwaith cysylltiedig sy'n cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru (2015 – 2020) yn cael eu cefnogi.

6.3 Bydd y gwelliannau i'r seilwaith priffyrdd fel rhan o Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands yn cael eu diogelu gyda'r llwybr yn cael ei nodi ar y map cynigion. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn nodi Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands fel prosiect cysyllteddd trawsnewidiol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cyflawni Ffordd Gyswllt Economaidd Cross Hands, Mae'r Ffordd Cyswllt Economaidd bellach wedi'i chwblhau gyda phob cam wedi'i gyflawni'n llwyddiannus. Mae cwblhau'r ffordd nawr yn golygu bod cyfle i hwyluso datblygiadau eraill i ddatblygu, megis hen Waith Brics Emlyn (PrC3/MU1). Mae cwblhau'r ffordd hefyd wedi cyd-fynd yn dda â datblygiad parhaus Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands, bydd y Ffordd Cyswllt Economaidd yn chwarae rhan allweddol wrth hwyluso unrhyw ddatblygiad a gyflwynir yn y safle. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys gwaith cloddio, draeniau, goleuadau, arwyddion cysylltiedig ac ati ynghyd â gwaith llety a gwaith lliniaru amgylcheddol cysylltiedig.

6.4 Bydd y ffordd gyswllt economaidd yn lleihau tagfeydd ar gylchfan Cross Hands yr A48 sy'n rhan o'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd, yn ogystal â gwella diogelwch wrth y gyffordd chwe ffordd yn Gors-las. Bydd y cynllun yn darparu cyswllt allweddol ar y rhwydwaith priffyrdd i Landeilo fel rhan o Gefnffordd Abertawe i Fanceinion.

6.5 Yng Nghaerfyrddin, agorodd y ffordd gyswllt newydd o fewn ardal Briff Cynllunio a Datblygu Gorllewin Caerfyrddin o ffordd gerbydau ddeuol yr A40 i Ffordd y Coleg ger Parc Dewi Sant a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant ym mis Mawrth 2019. Roedd hyn yn caniatáu mynediad i safleoedd addysg a chyflogaeth yn ogystal â darparu seilwaith ar gyfer twf tai yn y dyfodol ar safleoedd megis Gorllewin Caerfyrddin (PrC1/MU1) a hwyluso datblygiad Yr Egin (S4C) (gweler Polisi SP6: Safleoedd Strategol).

6.6 Nodir Ffordd Ddosbarthu Rhydaman Cam 2 fel rhan o gynnig hirdymor i gynorthwyo adfywiad economaidd ardaloedd ehangach Rhydaman a Dyffryn Aman. Er nad yw'r CDLl diwygiedig yn diogelu nac yn nodi'r llwybr hwn, mae'n cydnabod ei statws o fewn y Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd a bydd y Cyngor yn monitro unrhyw gynnydd tuag at ei gyflawni. Mae'r

diffyg arwyddion clir ei fod yn cael ei gyflawni, a'r ffaith nad yw wedi'i ddiffinio'n bendant, yn golygu nad yw'n cael ei nodi o fewn y Polisi nac ar y map cynigion.

6.7 Mae'r cynlluniau pellach a nodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2015 – 2020 yn cynnwys y cynlluniau hynny a restrir ar gyfer 2020 – 2030 a chânt eu hadolygu yn sgil y diweddariadau ar gynnydd a fydd yn deillio o'r Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd a strategaethau yn y dyfodol:

- Seilwaith Adfywio Economaidd Rhydaman (Stryd y Gwynt/Tir-y-dail) – gwelliannau i'r Gyffordd (cwblhawyd yn 2019)
- Coridorau a Chyfnewidfeydd Trafnidiaeth Strategol Sir Gaerfyrddin - gwelliannau parhaus i'r prif goridorau bysiau.
- Cysylltiadau Cerdded a Beicio Sir Gaerfyrddin - Parhau i ddatblygu rhwydwaith cynhwysfawr o gysylltiadau Cerdded a Beicio megis llwybr beicio Dyffryn Aman, llwybrau cyflogaeth Sir Gaerfyrddin a'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol i wella mynediad i gyflogaeth, addysg a gwasanaethau eraill yn ogystal ag annog twristiaeth a ffyrdd iach o fyw.
- A4138 Mynediad i Lanelli sy'n cynnwys cyfleuster Parcio a Theithio/rhannu ceir Llanelli/M4 – yn amodol ar gynllunio a gweithredu'r opsiynau a ffefrir ymhellach o 2019/20.
- Coridor Trafnidiaeth Dyffryn Tywi (Llwybr Beicio Dyffryn Tywi) - Llwybr beicio gyda chysylltiadau ag atyniadau allweddol, gan gynnwys trefi marchnad Caerfyrddin a Llandeilo, gyda dull graddol o weithredu a'r cam cychwynnol yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd.
- Cyfnewidfa Drafnidiaeth Integredig Llanelli – Yn ardaloedd Heol yr Orsaf/Heol Copperworks, mae hyn yn ganolbwynt allweddol er mwyn cyfnewid rhwng nifer o ddulliau trafnidiaeth gan gynnwys gorsaf reilffordd y dref, llwybrau bysiau masnachol allweddol a chyfleuster parcio a theithio (rheilffordd).
- Canolfannau Teithio Cynaliadwy - Gall gynnwys seilwaith gwefru cerbydau trydan, parthau cartrefi wedi'u targedu, gwelliannau i gyfnewidfeydd, rheseli beiciau a llwybrau teithio cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth
- Mynediad i Barc Gwledig Pen-bre - Adnewyddu/uwchraddio'r ffordd lôn sengl bresennol dros y bont reilffordd sy'n gwasanaethu Parc Gwledig Pen-bre hyn o bryd.

**6.8 Teithio Llesol:** Daeth Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 i rym ym mis Medi 2014. Diben y ddeddf yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fynd ati'n barhaus i wella cyfleusterau a llwybrau i bobl y sir. Mae hyn yn cynnwys llwybrau a chyfleusterau i gerddwyr a beicwyr. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr mewn cynlluniau ffyrdd newydd a chynlluniau gwella ffyrdd.

6.9 Mae gan deithio llesol rôl sylfaenol i'w chwarae wrth greu rhwydwaith trafnidiaeth integredig a hygyrch yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n hollbwysig er mwyn gwella hygyrchedd i'r aneddiadau cyfagos, pwyntiau cyswllt trafnidiaeth gyhoeddus, cyfleusterau cymunedol, ardaloedd masnachol a chyflogaeth, cyfleusterau twristiaeth a chyfleoedd hamdden. Mae darpariaethau ar gyfer teithio llesol yn bwysig er mwyn rhoi'r dewis i bobl beidio â defnyddio'r car preifat yn ogystal â hyrwyddo ffyrdd egnïol ac iach o fyw. Mae hyn, yn ei dro, yn lleihau effaith trafnidiaeth ar yr amgylchedd.

6.10 Bydd cynigion sy'n gwella mynediad i gerddwyr a beicwyr trwy ymgorffori'r canlynol o fewn y safle, a/neu wneud cyfraniadau ariannol tuag at ddarparu gwasanaethau oddi ar y safle, yn cael eu cefnogi:

- Llwybrau cerdded a beicio athraidd, eglur, uniongyrchol, cyfleus, deniadol a diogel sy'n cysylltu'r datblygiad ag: aneddiadau cyfagos; pwyntiau cyswllt trafnidiaeth gyhoeddus; cyfleusterau cymunedol; ardaloedd masnachol a chyflogaeth; cyfleusterau twristiaeth; a chyfleoedd hamdden;
- Gwelliannau, cysylltiadau a/neu estyniadau i: y rhwydwaith llwybrau troed a hawliau tramwy cyhoeddus presennol (gan gynnwys llwybrau ceffylau); rhwydwaith a llwybrau beicio; Llwybrau Diogel i'r Ysgol; a llwybrau sy'n rhan o'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd; a
- Chyfleusterau sy'n annog pobl i gerdded a beicio, gan gynnwys: arwyddion priodol; mannau parcio beiciau diogel a chyfleus; a chyfleusterau newid a chysylltiedig.

6.11 Bydd disgwyl i gynigion sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar hawliau tramwy cyhoeddus neu lwybrau presennol a nodir drwy Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 gyfrannu at gyflwyno Cynllun Teithio Llesol y Cyngor.

6.12 Rhaid i gynigion datblygu geisio sicrhau bod lleoedd mor hygyrch ag y bo modd ar droed, ar feic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, drwy roi blaenoriaeth i ddarparu seilwaith priodol ar y safle a, lle y bo angen, lliniaru effeithiau trafnidiaeth trwy ddarparu mesurau oddi ar y safle. Er

enghraifft, datblygu llwybrau teithio llesol, seilwaith sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau a chymorth ariannol i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus[1]

6.13 Y Rhwydwaith Rheilffyrdd: Gwasanaethir y Sir gan reilffordd Gorllewin Cymru a rheilffordd Calon Cymru. Mae gan linell Gorllewin Cymru ganghennau o Sir Benfro, sy'n cydgyfarfod yn Hendy-gwyn ar Daf ac yn ymestyn drwy Gaerfyrddin a Llanelli i Abertawe, lle maent yn cysylltu â'r rhwydwaith rheilffyrdd ehangach. Mae rheilffordd Gorllewin Cymru o bwysigrwydd strategol nodedig fel rhan o'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd sy'n cysylltu â'r porthladdoedd fferi i Iwerddon yn Sir Benfro.

6.14 Mae rheilffordd Calon Cymru yn ymestyn o Abertawe i'r Amwythig ac yn cynnwys arosfannau rheolaidd yn Llanelli, Rhydaman, Llandeilo, a Llanymddyfri. Mae'r rheilffordd hon, yn ogystal â gwasanaethu anghenion trafnidiaeth lleol, yn darparu cyswllt rhanbarthol o Ogledd a Chanolbarth Lloegr i Dde-orllewin Cymru, ac mae ganddi fanteision posibl o safbwynt twristiaeth (twristiaeth wledig yn arbennig).

6.15 Mae gwelliannau cyson yn cael eu gwneud i'r rhwydweithiau rheilffyrdd, ac mae'r gwelliannau hyn yn gwella diogelwch a mynediad i gerddwyr. Caiff gwelliannau a chyfleusterau seilwaith cysylltiedig sy'n cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru (2015 – 2020) eu cefnogi gan y CDLl diwygiedig.

# 7. Addysg

7.1 Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin ddyletswydd statudol fel Awdurdod Addysg Lleol i sicrhau bod nifer ac amrywiaeth ddigonol o leoedd ysgol ar lefel gynradd ac uwchradd ar gael i ddiwallu anghenion poblogaeth gynyddol y Sir. Mae Rhaglen Moderneiddio Addysg Sir Gaerfyrddin, ar y cyd â Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn ymwneud â gweddnewid y rhwydwaith o ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd sy'n gwasanaethu'r sir yn adnoddau strategol a gweithredol effeithiol sy'n bodloni'r angen heddiw a'r angen yn y dyfodol am addysg sy'n canolbwyntio ar yr ysgol a'r gymuned. Cyflawnir hyn drwy ddatblygu a gwella adeiladau, seilwaith a mannau sy'n cael eu lleoli, eu dylunio, eu hadeiladu neu'u haddasu er mwyn meithrin datblygiad cynaliadwy pobl a chymunedau Sir Gaerfyrddin. Hyd yn hyn buddsoddwyd oddeutu £274 miliwn yn adeiladau a chyfleusterau ein hysgolion ledled y sir - ac mae mwy ar y ffordd. Mae'n cynnwys adeiladu deg ysgol gynradd

[1] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10: paragraff 4.110

newydd a dwy ysgol uwchradd newydd, ynghyd â gwaith ailfodelu ac adnewyddu mewn nifer o ysgolion eraill.

7.2 Ers cychwyn y rhaglen moderneiddio addysg yn 2001/2002 hyd at nawr buddsoddwyd cyfanswm o £307 miliwn yn ysgolion Sir Gaerfyrddin.

- Adeiladwyd 14 adeilad ysgol gynradd newydd gan gynnwys Ysgol Gymunedol Peniel, Ysgol Bro Brynach, Ysgol y Bedol, Ysgol Gynradd Gymunedol y Bryn, Ysgol Bryn Teg, Ysgol Gymraeg Brynsierfel, Ysgol Gymunedol Ffwrnes, Ysgol Carreg Hirfaen, Ysgol Gymunedol Trimsaran, Ysgol Pen Rhos, Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn, Ysgol Pum Heol, Ysgol Gors-las and Ysgol y Castell.
- Bu 38 o brosiectau ailfodelu, adnewyddu ac ymestyn sylweddol. Mae Ysgol Pontyberem yn enghraifft wych o hyn, wedi i waith ail-ddatblygu ac adnewyddu gwerth £4 miliwn gael ei wneud yno. Mae Ysgol Gynradd Llangadog yn enghraifft wych arall.
- Mae ysgolion cynradd ledled y Sir wedi derbyn mân fuddsoddiadau eraill a gwaith dros dro.

7.3 Dangosir patrwm tebyg ar gyfer Ysgolion Uwchradd ledled y Sir. Ers cychwyn y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn 2001/2002 hyd at ddiwedd 2017/2018, mae'r prosiectau Ysgol Uwchradd canlynol wedi'u cwblhau

- 2 Ysgol Uwchradd newydd gan gynnwys canolfannau rhanbarthol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (AAA): Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth ac Ysgol Bro Dinefwr
- 11 achos o waith ailfodelu ac adnewyddu mawr gan gynnwys buddsoddiadau mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig – ymhlith y prosiectau ailfodelu ac adnewyddu nodedig y mae Ysgol Maes y Gwendraeth, Ysgol y Strade ac Ysgol Dyffryn Aman.

7.4 Mae'r buddsoddi yn parhau mewn nifer o ysgolion cynradd ar draws Sir Gaerfyrddin sy'n cynnwys Ysgol y Castell a fydd yn cael adeilad newydd.

7.5 Parheir i fuddsoddi hefyd yn ysgolion uwchradd y Sir gydag estyniad a gwaith adnewyddu mawr i'w gyflawni yn Ysgol Sant Ioan Llwyd yn Llanelli.

7.6 Lle bo'n berthnasol, gofynnir am rwymedigaethau cynllunio i sicrhau yr ymdrinnir yn llwyr ag effeithiau datblygiadau er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol. Bydd angen cyfraniadau ariannol tuag at gyfleusterau addysgol. Lle bo angen, gofynnir hefyd am gyfraniadau tuag at waith cynnal a chadw cyfleusterau addysgol yn barhaus ac yn y dyfodol.

7.7 Tra bod modd diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion y Sir yn ein hysgolion prif ffrwd, mae ystod o ysgolion arbennig a darpariaeth arbenigol wedi'i datblygu i addysgu disgyblion.[2] Mae'r tabl isod yn dangos ysgolion a'u mathau o ddarpariaeth arbenigol

**Tabl 1.1 – Ysgolion darpariaeth arbenigol**

| |
|---|
| **Unedau Arsylwi ac Asesu**<br>Lleoliad tymor byr i blant 3-7 oed (Cyfnod Sylfaen) sydd ag oedi cyffredinol neu benodol yn eu datblygiad, lle byddant yn cael eu hasesu. |
| Bro Banw |
| Parc Waundew |
| Canolfan y Felin |
| Canolfan Nantgaredig. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg |
| **Unedau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu**<br>Ar gyfer plant y mae angen lleoliad arbenigol i ddiwallu eu hanghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu; caiff y plant brofiadau a chyfleoedd prif ffrwd yn eu hysgol letyol |
| Bro Banw - Cyfnod Sylfaen |
| Canolfan y Felin - Cyfnod Sylfaen |
| Canolfan yr Ynys - Cyfnod Allweddol 2 |
| Canolfan Nantgaredig - Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg |
| **Plant ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog**<br>Ar gyfer plant ag anghenion hirdymor, difrifol neu gymhleth |
| Canolfan yr Enfys - Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 |
| Myrddin - Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 |
| Canolfan y Felin - Cyfnod Allweddol 2. Darpariaeth anhawster dysgu difrifol yn unig |
| Canolfan Elfed - Cyfnod Allweddol 3 a 4 |
| Canolfan Amanwy - Cyfnodau Allweddol 3 a 4 |
| Heol Goffa - Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4 |
| Canolfan Nantgaredig - Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg |
| Canolfan yr Eithin - Cyfnodau Allweddol 3 a 4. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg |
| **Disgyblion ag Awtistiaeth**<br>I blant sy'n cael yr anhawster mwyaf wrth ymwneud ag eraill |
| Myrddin - Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 |
| Pwll - Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 |

[2]Tudalennau gwe Cyngor Sir Caerfyrddin - Addysg ac Ysgolion
https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethau-cyngor/addysg-ac-ysgolion/

| |
|---|
| Canolfan yr Enfys - Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 |
| Canolfan Cothi - Cyfnodau Allweddol 3 a 4 |
| Canolfan Elfed - Cyfnodau Allweddol 3 a 4 |
| Canolfan Nantgaredig - Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg. |
| Canolfan yr Eithin - Cyfnodau Allweddol 3 a 4. Darpariaeth cyfrwng Cymraeg |
| **Disgyblion â nam ar eu clyw** |
| Parcyrhun - Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 |
| Canolfan Elfed - Cyfnodau Allweddol 3 a 4 |
| **Disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol** |
| Canolfan Bro Tywi - Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Lleoliad 4 diwrnod. |
| Rhyd-y-gors - Cyfnod Allweddol 2 i 4 |
| Canolfan Dysgu ac Addysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin ym Mhorth Tywyn - Cyfnodau Allweddol 3 a 4 |
| Canolfan Dysgu ac Addysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin yng Nghanolfan y Gors - Cyfnodau Allweddol 3 a 4 |

7.8 Mae'r ysgolion darpariaeth arbenigol hyn yn cynorthwyo gydag ymrwymiad y Cyngor i gynhwysiant ac i addysgu cynifer o blant a phobl ifanc y Sir o fewn eu cymunedau lleol ag y bo modd. Mae'r darpariaethau hyn yn hanfodol i ddiwallu anghenion seilwaith.

7.9 Mae'r Cyngor, fel yr oedd ym mis Rhagfyr 2019, yn cynnal cyfanswm o 95 o ysgolion cynradd, 12 o ysgolion uwchradd, 1 meithrinfa a 2 ysgol arbennig. 111 o ysgolion, sy'n darparu addysg i dros 27,000 o ddisgyblion.

## 8. Cyfleusterau Gofal Iechyd

8.1 Bydd y cynnydd a ragwelir mewn poblogaeth a thai yn effeithio ar leoliad a darpariaeth cyfleusterau gofal iechyd. Mae diwygiadau'r GIG yn symud tuag at fodelau iechyd a gofal cymdeithasol wedi'u lleoli yn y gymuned, gan ganolbwyntio ar wasanaethau atal gwell gydag ymyriadau cynharach, mwy o ddewis i gleifion, gwneud mwy i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella mynediad at wasanaethau cymunedol a darparu mwy o gymorth i bobl ag anghenion iechyd hirdymor. Mae Polisi INF2: Cymunedau Iach, yn ceisio mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn. Caiff y cysylltiadau rhwng iechyd a llesiant, a chynllunio, eu hadlewyrchu mewn deddfwriaeth a pholisi cynllunio cenedlaethol. Yn hyn o beth mae Polisi Cynllunio Cymru yn ceisio darparu fframwaith ar gyfer cyflwyno cyfres o Ganlyniadau

Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy. Mae'r dull cyfannol hwn o gynllunio a dylunio datblygiadau a mannau yn adlewyrchu ffocws ar ganlyniadau cadarnhaol sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl. Mae hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol i hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach yn adlewyrchu'r cysylltiadau hyn rhwng iechyd, llesiant a chynllunio a'r angen i adlewyrchu unrhyw effeithiau posibl a allai ddeillio o'r broses gynllunio.

8.2 Gall Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd fod yn arf gwych wrth gynnig neu wneud penderfyniadau ar ddatblygiad newydd. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd yn asesu effaith unrhyw newid neu ddiwygiad i bolisi, gwasanaeth, cynllun, gweithdrefn neu raglen ar iechyd y boblogaeth ac ar ddosbarthiad yr effeithiau hynny o fewn y boblogaeth, yn arbennig o fewn grwpiau bregus. Mae gwneud Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn cynhyrchu gwybodaeth am sut y gellir lleihau effeithiau negyddol ar iechyd ac annog cynnydd cadarnhaol mewn iechyd. Mae hefyd yn edrych ar y seilwaith presennol a pha seilwaith fydd ei angen i ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau.

8.3 Dylai datblygiadau newydd helpu i hyrwyddo iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. Er mwyn helpu i hyrwyddo hyn, dylai datblygwyr ystyried y dull dilyniannol canlynol er mwyn pennu'r gofyniad ar gyfer Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, a chwmpas posibl a chynnwys y gwaith hwn. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i ddatblygiadau mawr a chaiff ei ddiffinio mewn deddfwriaeth gynllunio fel:

- Datblygiadau preswyl o 10 neu fwy o anheddau neu 0.5 hectar neu fwy;
- Darparu adeilad neu adeiladau lle bydd yr arwynebedd llawr a gaiff ei greu yn sgil y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
- Datblygiad a wneir ar safle sydd ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy

8.4 Dylid dilyn y dull dilyniannol canlynol wrth ystyried yr angen am asesiad o’r effaith ar iechyd, sy’n adlewyrchu'r canllawiau a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd - Canllaw Ymarferol

- CAM 1: Sgrinio – Penderfynu a ddylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
  Mae'r broses sgrinio yn cymryd golwg gychwynnol ar effeithiau posibl y cynnig ar y boblogaeth leol ac unrhyw grwpiau penodol sy'n agored i niwed a ddiffinnir ynddo. Dylai dynnu sylw at unrhyw risgiau neu fuddion posibl o safbwynt iechyd ac unrhyw grwpiau y gallai hyn effeithio'n arbennig arnynt. Canlyniad sgrinio yw penderfynu a ddylid ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ai peidio ac, os felly, penderfynu

pa fath o Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fydd ei angen. Dylai hefyd roi esboniad o sut y daethpwyd i'r penderfyniad.

- CAM 2: Cwmpasu – Pennu'r ffocws, y dulliau a'r cynllun gwaith. Mae'r cam hwn yn cynnwys gofyn nifer o gwestiynau a gwneud nifer o benderfyniadau i sefydlu'r cylch gorchwyl, y rolau a'r cyfrifoldebau a chynllun y cytunwyd arno ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

- CAM 3: Gwerthuso'r Dystiolaeth – Nodi'r effeithiau ar iechyd. Dyma'r cam allweddol wrth asesu'r effaith ar iechyd. Y diben yw casglu gwybodaeth am natur, maint, tebygolrwydd a dosbarthiad posibl effeithiau'r cynnig ar iechyd. Mae hefyd yn rhoi cyfle i awgrymu ffyrdd posibl o sicrhau'r buddion iechyd gorau a lleihau'r risgiau i'r eithaf, yn enwedig i'r rheiny y gallai eu hiechyd fod fwyaf bregus neu'r grwpiau poblogaeth sydd dan fwyaf o anfantais. Mae hefyd yn rhoi cyfle i nodi ac awgrymu camau gweithredu a allai fynd i'r afael â 'bylchau' yn y cynnig neu'r cynllun.

  Er nad yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ddull ymchwil ynddo'i hun, mae'n defnyddio ystod o ffynonellau gwybodaeth a dulliau ar gyfer casglu a dadansoddi data, y bydd rheolau a gweithdrefnau methodolegol priodol yn berthnasol iddo.

- CAM 4: Adrodd ac Argymhellion - Ar ôl i'r dystiolaeth a'r data gael eu casglu, dylid datblygu set o argymhellion, wedi'u llywio gan gamau blaenorol yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Dylai'r argymhellion hyn geisio gwneud y mwyaf o unrhyw fuddion posibl i iechyd a llesiant a lleihau'r effeithiau negyddol posibl. Gallant fod yn gyfle i 'lenwi' unrhyw fylchau a nodir o fewn y cynnig ac unioni unrhyw anghydraddoldebau iechyd (neu eraill) a allai gael eu hachosi.

8.5 Mae angen i argymhellion fod:

- Yn glir a chryno
- Yn realistig
- Yn gyraeddadwy
- Yn hylaw o ran nifer
- Yn ddiduedd
- Yn adlewyrchu'r holl dystiolaeth a barn cynrychiolwyr
- Yn destun cytundeb drwy gonsensws

Dylid cyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol yr Asesiad o’r Effaith ar Iechyd a fydd yn cael eu llunio fel rhan o’r CDLl diwygiedig.

8.6 Mae'r holl gamau hyn ar waith i sicrhau bod y seilwaith angenrheidiol yn cael ei ddarparu yn yr holl ardaloedd perthnasol. Mae'r Cyngor yn cydnabod na fydd yr holl faterion iechyd a llesiant yn berthnasol i bob math o ddatblygiad, felly mae angen ymagwedd gytbwys wrth benderfynu ar gynigion datblygu lle mae materion yn ymwneud ag iechyd yn un o nifer o ystyriaethau eraill.

8.7 Mae yna dri datblygiad pwysig, ar wahanol gamau o'r broses gynllunio, o fewn y Sir a fydd yn darparu'r seilwaith iechyd angenrheidiol ar gyfer yr ardal leol. Y tri datblygiad hyn yw Pentre Awel, Canolfan Iechyd a Llesiant Cross Hands ac ysbyty Hywel Dda newydd y GIG ar gyfer Gorllewin Cymru. Nod y tair canolfan, gyda'i gilydd, yw darparu cyfleusterau a gwasanaethau sy'n hybu ac yn gwella llesiant, gan gynnwys datblygu busnes, addysg, gofal iechyd, cymorth llesiant ac ymchwil mewn gwyddorau bywyd mewn un lleoliad, a chyflwyno buddion cymdeithasol ac economaidd trawsnewidiol. Mae proses dewis safle yn mynd rhagddi ar hyn o bryd ar gyfer yr ysbyty newydd, gyda’r gwaith chwilio yn Sir Gaerfyrddin yn canolbwyntio ar Hendy-gwyn a Sanclêr.

## 9. Seilwaith Gwyrdd a Glas

### 9.1 Beth yw Seilwaith Gwyrdd a Glas?

Pan fydd Seilwaith Gwyrdd a Glas wedi'i gynllunio, ei ddylunio a'i reoli'n briodol, gall ddod ag ystod eang o fuddion i bobl a bywyd gwyllt. Trwy ystyried yr amryfal swyddogaethau y gall ased Seilwaith Gwyrdd a Glas eu darparu ar yr un pryd, mae ganddo’r potensial i wella ansawdd bywyd ac iechyd trigolion, gweithwyr ac ymwelwyr yn Sir Gaerfyrddin gan leihau’n sylweddol y costau cysylltiedig i unigolion, busnesau a chyrff cyhoeddus.

9.2 Mae'r swyddogaethau hyn y gall Seilwaith Gwyrdd a Glas eu darparu yn ffitio'n fras o dan y themâu canlynol.

### 9.3 Bioamrywiaeth:

Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas wella cysyllteddau rhwng ardaloedd natur presennol trwy atal y broses o ddarnio a cholli cynefinoedd a gwella cydnerthedd ecolegol. Rhaid i gynigion datblygu geisio gwarchod a gwella bioamrywiaeth ar y safle, a rhwydweithiau cynefinoedd o fewn y safle ac yn agos iddo. Dylai hyn gynnwys nodi ffyrdd o leihau'r broses o ddarnio cynefinoedd neu wrthdroi hyn, a gwella cysylltedd cynefinoedd drwy hyrwyddo

coridorau bywyd gwyllt, a nodi cyfleoedd ar gyfer creu cynefinoedd newydd neu well sy'n hyrwyddo buddion net i fioamrywiaeth.

**9.4 Ymdeimlad o le:** Mae ymgorffori nodweddion Seilwaith Gwyrdd a Glas mewn datblygiadau newydd yn elfen bwysig o ddull creu lleoedd Llywodraeth Cymru a gall gyfrannu at ymdeimlad unigryw o ardal neu anheddiad. Mae cadw nodweddion presennol mewn cynigion yn helpu i greu lleoedd sy'n wahanol i leoedd eraill, a gall helpu i leddfu effaith newid drwy greu ymdeimlad o barhad sy'n cydnabod hunaniaeth leol. Mae Seilwaith Gwyrdd a Glas yn rhan annatod o greu lleoedd ac felly rhaid i hyn fod yn rhan o'r broses o ddylunio datblygiadau o'r cychwyn, yn hytrach na chael ei ddefnyddio yn achos tir 'dros ben'.

**9.5 Newid yn yr Hinsawdd:** Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas chwarae rhan hollbwysig mewn ymdrechion i atal, lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd, a bydd yn chwarae rhan gynyddol bwysig wrth ddiogelu ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd rhag newid yn yr hinsawdd. Gall cynyddu gorchudd gwyrdd ein trefi a dinasoedd ddarparu nifer o fuddion wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae'r rhain yn cynnwys dal a storio carbon, lliniaru gwres a lleihau'r perygl o lifogydd yn ogystal â lliniaru'r dirywiad mewn ansawdd aer a dŵr yn sgil newid yn yr hinsawdd. Dylai'r datblygiad geisio manteisio i'r eithaf ar y buddion hyn, gan ystyried blaenoriaethu buddion yn yr ardaloedd canlynol:

- O fewn parthau llifogydd fel y nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, darparu capasiti ar gyfer storio dŵr mewn achos o lifogydd
- O fewn y Prif Ganolfannau, lliniaru rhag tymereddau uchel drwy gynyddu'r gorchudd canopi a defnyddio arwynebau mewn modd effeithlon i wneud y mwyaf o'r seilwaith gwyrdd a ddarperir, gan gynnwys drwy gyfrwng toeau gwyrdd a waliau gwyrdd
- Mewn ardaloedd lle mae iechyd preswylwyr ar gyfartaledd yn wael, darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.
- O fewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer, gwneud gwaith plannu addas i helpu i gael gwared ar lygryddion aer.

Bydd cynigion datblygu hefyd yn integreiddio systemau draenio cynaliadwy (SuDS) wedi'u naturioli wrth ddylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas, a chyn belled ag y bo modd, dylent sicrhau bod y ddarpariaeth SuDS yn amlswyddogaethol

**9.6 Iechyd a Llesiant:** Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas fod yn ffordd effeithiol o wella iechyd a llesiant, drwy gysylltu anheddau, gweithleoedd a chyfleusterau cymunedol a darparu mannau gwyrdd a glas hygyrch o ansawdd uchel.  Dylai'r datblygiad geisio sicrhau'r manteision mwyaf

posibl yn sgil y Seilwaith Gwyrdd a Glas, a lle y bo'n briodol, hyrwyddo’r defnydd cyhoeddus ohono, gan roi pwyslais ar feithrin cymunedau mwy iach. Bydd cynigion datblygu yn bodloni safonau hygyrchedd lleol, ansawdd a niferoedd ar gyfer mannau agored, ac yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion y gymuned. Bydd cynigion datblygu yn cynnal ac yn gwella ansawdd a chysylltedd rhwydweithiau mynediad, gan integreiddio llwybrau teithio llesol (cysylltu gweithleoedd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol a chanolfannau trafnidiaeth gyhoeddus) a llwybrau hamdden mewn Seilwaith Gwyrdd a Glas.

**9.7 Yr Economi:** Gall diogelu a buddsoddi mewn Seilwaith Gwyrdd a Glas gefnogi llwyddiant economaidd a thwf cynaliadwy. Gall Seilwaith Gwyrdd a Glas ddenu mewnfuddsoddiad, gan wneud ardal leol yn fwy deniadol i fusnesau ac ymwelwyr. Gall hefyd arbed arian i ddatblygwyr gan fod gan asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas y potensial i fodloni nifer o ofynion mewn ateb amlswyddogaethol (e.e. mannau agored a SuDS). I'r perwyl hwn, dylai'r datblygiad geisio nodi a gwella ansawdd, defnydd a natur amlswyddogaethol y ddarpariaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas ar y safle.

# 10. Mannau Agored

**10.1 Diogelu Mannau Agored:** Yn y CDLl Diwygiedig o dan PSD8: Diogelu Mannau Agored, nodir y bydd unrhyw ddatblygiad presennol neu arfaethedig yn diogelu ac, os yn bosibl, yn gwella hygyrchedd mannau agored. Bydd cynigion sy'n arwain at golli mannau agored ond yn cael eu caniatáu:

a) Lle dangosir bod darpariaeth sydd o leiaf o werth cyfatebol ar gael o fewn yr anheddiad, neu leoliad hygyrch addas; a,
b) Lle na fyddai'n achosi nac yn gwaethygu diffyg mannau agored; neu,
c) Lle byddai'r broses o ail-ddatblygu rhan fach o'r safle yn caniatáu ar gyfer cadw a gwella'r rhan fwyaf o'r cyfleuster; neu,
d) Bod cyfraniad ariannol boddhaol tuag at ddarpariaeth digolledu yn cael ei ddarparu fel cyfleuster amgen derbyniol.

**10.2 Mannau Agored Newydd:** Yn y CDLl diwygiedig o dan bolisi PSD8: Darparu Mannau Agored Newydd, nodir y bydd yn ofynnol i bob datblygiad preswyl newydd o bump neu fwy o gartrefi gyfrannu at fannau agored yn unol â safonau mannau agored y Cyngor. Os na ellir bodloni'r safonau ar y safle, neu os oes digon o ddarpariaeth bresennol ar gael eisoes i wasanaethu'r datblygiad, yna ceisir swm cyfnewid lle bo'n briodol. Gall y swm hwn fynd tuag

at gynnal a chadw mannau agored presennol. Dylid cyfeirio at Bolisi INF1 mewn perthynas â rhwymedigaethau cynllunio a chyfraniadau datblygwyr.

10.3 Gyda golwg ar y ddarpariaeth Mannau Gwyrdd Naturiol, Mannau Chwarae a Mannau Agored Cyhoeddus, mae asesiad y CDLl Diwygiedig o fannau agored yn nodi'r safonau mannau agored canlynol:

Mannau Agored Cyhoeddus:

1. Dylai fod yna o leiaf 0.8ha o barciau a gerddi ar gyfer pob 1000 o'r boblogaeth
2. Dylai fod yna o leiaf 0.6ha o fannau gwyrdd amwynder ar gyfer pob 1000 o'r boblogaeth
3. Dylai pawb fod o fewn 700m i barc neu fan gwyrdd ffurfiol
4. Dylai pawb fod o fewn 480m i fan gwyrdd amwynder

Mannau Gwyrdd Naturiol:

1. Ni ddylai unrhyw berson fyw mwy na 400m oddi wrth ei ardal agosaf o fan gwyrdd naturiol (sydd o leiaf 0.5ha)
2. Dylai fod yna o leiaf un man gwyrdd naturiol o 20ha neu fwy, o fewn 2km i bob cartref
3. Dylai fod yna o leiaf un man gwyrdd naturiol o 100ha neu fwy, o fewn 5km i bob cartref
4. Dylai fod yna o leiaf un man gwyrdd naturiol o 500ha neu fwy, o fewn 10km i bob cartref
5. Dylai fod yna o leiaf 2ha o fannau gwyrdd naturiol ar gyfer pob 1000 o'r boblogaeth

Mannau Chwarae:

1. Dylai fod o leiaf 2.4ha o le chwarae ar gyfer pob 1000 o'r boblogaeth
2. Dylai o leiaf 1.6ha o'r 2.4ha fod yn gyfleusterau chwaraeon awyr agored
3. Dylai o leiaf 0.8ha o'r 2.4ha fod yn gyfleusterau chwarae i blant
4. Dylai pawb fyw o fewn 1,200m i gyfleusterau chwaraeon awyr agored
5. Dylai pawb fyw o fewn 400m i gyfleusterau chwarae i blant

10.4 Dylid nodi bod CCA Mannau Agored newydd yn cael ei gynnig, yn unol â mabwysiadu'r CDLl Diwygiedig, a fydd yn disodli'r canllawiau meincnod uchod. Bydd yr adran hon o'r Asesiad Seilwaith yn cael ei diwygio yng ngoleuni unrhyw newidiadau sy'n codi yn y CCA arfaethedig..

## 11. Seilwaith Cymdeithasol

**11.1 Cyfleusterau Cymunedol:** Mae darparu amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol, gan gynnwys cyfleusterau iechyd ac addysg, sy'n hygyrch i gynifer o bobl ag sy'n bosibl, yn hanfodol er mwyn sicrhau seilwaith digonol, ac yn eu tro, cymunedau cynaliadwy. Mae cyfleusterau o'r fath yn werthfawr nid yn unig o safbwynt yr amwynder y maent yn ei ddarparu, maent hefyd yn bwysig wrth greu swyddi a denu pobl i fyw mewn ardal. Mae cyfleusterau cymunedol yn cyfrannu'n sylweddol at lesiant, ansawdd bywyd, mwynhad a chynwysoldeb aneddiadau a chymunedau o fewn y Sir. Bydd cyfleusterau cymunedol yn arbennig yn chwarae rôl allweddol wrth hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru yn ogystal â helpu i greu lleoedd cynaliadwy ac ymdeimlad o le. Sicrheir gwelliannau i gyfleusterau cymunedol a gyflenwir neu a ariennir drwy'r system gynllunio drwy gyfraniadau trwy rwymedigaethau cynllunio neu, lle bo'n briodol, trwy amodau cynllunio.

**11.2 Hamdden a Chwaraeon:** Mae cyfleoedd hamdden a chwaraeon yn hanfodol i hybu llesiant a chreu a chynnal cymunedau iach, felly mae'r awdurdod wedi gosod darpariaethau o fewn y CDLl Diwygiedig er mwyn sicrhau bod y cyfle i gael mynediad i'r cyfleusterau hyn ar gael i'r cyhoedd.

11.3 Mae Pentre Awel yn safle strategol sy'n arwain y byd a nodir yn y CDLl Diwygiedig. Bydd hwb llesiant yn cael ei adeiladu fel rhan o'r datblygiad, a fydd yn cynnwys canolfan hamdden, cyfleoedd chwaraeon awyr agored, cyfleoedd hamdden a gweithgareddau hyrwyddo llesiant. Bydd y cyfleusterau hyn yn hygyrch i breswylwyr presennol yr ardal yn ogystal â phreswylwyr newydd.

11.4 Mae'r CDLl diwygiedig yn hyrwyddo mynediad at gyfleoedd hamdden ffurfiol ac anffurfiol. Mae meysydd chwaraeon, rhandiroedd, parciau ac amwynderau naturiol ehangach megis dyfrffyrdd a choetiroedd yn darparu cyfleoedd ar gyfer buddion iechyd posibl ac yn ychwanegu at yr ymdeimlad o le sydd gan gymuned, yn ogystal ag integreiddio seilwaith gwyrdd yn y ffurf drefol. Er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd i bawb gael mynediad at gyfleoedd hamdden a chwaraeon, mae'r CDLl Diwygiedig yn amlinellu paramedrau i sicrhau bod pawb yn byw o fewn 1,200m i gyfleusterau chwaraeon awyr agored ac y dylai pawb fod o fewn 700m i barc neu ardd ffurfiol.

**11.5 Cymorth gyda'r Iaith Gymraeg:** Mae'r CDLl diwygiedig yn cydnabod bod yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhan hanfodol o wead cymdeithasol Sir Gaerfyrddin. Mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd preswylwyr Sir Gaerfyrddin a'i hymwelwyr. Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin yn sylweddol uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru ac, oherwydd hyn, mae'n rhan sylweddol o ffabrig cymdeithasol cymunedau'r sir, gan gynnig ymdeimlad o le a hunaniaeth gref. Mae Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Mae hyn yn yn golygu bod angen mynd i'r afael â rhai darpariaethau a seilwaith er mwyn diogelu a chefnogi'r iaith. Mae Polisi WL1: Yr Iaith Gymraeg a Datblygiadau Newydd yn diogelu ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae'r polisi yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu penodol gyflwyno Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg. Mae Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg yn nodi'r mesurau i'w rhoi ar waith i ddiogelu a gwella sefyllfa'r Gymraeg. Bydd angen Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg ar gyfer y cynigion datblygu canlynol ar safleoedd dyranedig:

a) Datblygiadau preswyl o 5 neu fwy o anheddau a fydd yn unigol neu gyda'i gilydd yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai ddangosol a nodir ar gyfer yr anheddiad ym Mholisïau HOM1 a HOM3; neu
b) Datblygiad preswyl o 5 neu fwy o anheddau ar safleoedd wedi'u dyrannu neu hap-safleoedd nad ydynt yn mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a'r galw am dai a gofnodwyd mewn Asesiad o'r Farchnad Dai neu ffynonellau tystiolaeth lleol eraill sy'n berthnasol; neu,
c) Datblygiadau adwerthu, masnachol neu ddiwydiannol â chyfanswm arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy ar arwynebedd safle sy'n fwy nag 1 hectar.

11.6 Mae'n ofynnol i gynigion ar hap-safleoedd nas rhagwelwyd ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n arwain at lif gweithlu sylweddol gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a fydd yn nodi sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella'r Gymraeg.

Bydd yn ofynnol bod cynigion nad ydynt yn gyson â dosbarthiad tai'r Cynllun (Atodiad 7) yn darparu cynllun fesul cyfnod sy'n nodi'r graddfeydd amser ar gyfer darparu'r tai a gynigir ar y safle, a dangos na fyddent yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg na ellir ei lliniaru.

11.7 Mae'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn nodi'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg. Dylai'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg nodi hefyd sut y mae'r datblygiad yn cynnig gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at grwpiau iaith Gymraeg y gymuned. Gallai hyn, ymhlith mesurau eraill, gynnwys rhoi cymorth a chyllid i

sefydliadau a chyrff sy'n darparu gweithgareddau, cyfleusterau ac addysg ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, a chymorth a chyllid tuag at ddosbarthiadau Cymraeg. Bydd yn ofynnol bod Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi effeithiau disgwyliedig y datblygiad arfaethedig ar y Gymraeg yn y Sir. Mae Canllawiau[3] Cynllunio Atodol y Gymraeg yn rhoi canllawiau pellach ynghylch pryd mae angen Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg, gan egluro beth yw datblygiad ar raddfa fawr, yn ogystal â sut i lunio Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg.

11.8 Er y gellir rhoi cymorth i brosiectau trwy gyfraniadau ariannol, gellir ei roi trwy ddulliau eraill hefyd. Bydd caniatâd cynllunio'n cael ei roi gydag amodau neu'n amodol ar gytundebau cyfreithiol i sicrhau bod y mesurau lliniaru a gwella a gynigir yn y Cynllun Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith. Bydd canllawiau pellach ar gynnwys Cynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg yn cael eu darparu trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol.

# 12. Rheolaeth Amgylcheddol

## 12.1 Perygl o Lifogydd – Diweddariad i TAN15 a gwaith parhaus yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd:

Ym mis Tachwedd 2021 ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd at bob Awdurdod Lleol yn cyhoeddi na fydd Nodyn Cyngor Technegol newydd rhif 15 a'r Map Llifogydd cysylltiedig ar gyfer Cynllunio yn cael eu cyflwyno tan 1 Mehefin 2023. Roedd y llythyr yn dweud ei bod yn ofynnol bod pob awdurdod cynllunio lleol yn adolygu, o fewn 12 mis, yr Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer eu hardal, naill ai'n unigol neu'n rhanbarthol.

12.2 Ym mis Rhagfyr 2021 anfonodd y Gweinidog lythyr arall at bob Awdurdod Lleol yn rhoi mwy o wybodaeth am eu disgwyliadau ynghylch y gwaith hwn. Nododd y llythyr fod Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd yn ddogfen allweddol ar gyfer Cynlluniau Datblygu a nododd fod disgwyl i bob Awdurdod Cynllunio Lleol hysbysu'r gweinidog erbyn diwedd Ionawr 2022 ynghylch a ydynt yn ymgymryd ag Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd newydd. Pwysleisiwyd bod gwaith Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd yn bwysig wrth lywio cynlluniau datblygu ac wrth nodi 3 chanlyniad angenrheidiol cyn i'r TAN 15 newydd ddod i rym, sef:

1. Mireinio'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio,
2. Nodi piblinell o brosiectau ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydiad y glannau a;

[3] Cyngor Sir Caerfyrddin (2014), Canllawiau Cynllunio Atodol: Y Gymraeg

3. Datblygu dulliau polisi penodol lleol.

12.3 Mae JBA Consulting wedi paratoi Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd - Cam 1 rhanbarthol ar ran yr Awdurdodau Cynllunio Lleol canlynol yn rhanbarth y De-orllewin:

• Cyngor Dinas a Sir Abertawe;

• Cyngor Sir Caerfyrddin;

• Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;

• Cyngor Sir Penfro;

• Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro;

• Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

12.4 Mae'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd yn darparu trosolwg lefel uchel o berygl llifogydd ar draws y rhanbarth ac yn rhoi arweiniad eang i gynllunwyr, gwneuthurwyr penderfyniadau a datblygwyr. Mae'r gwaith hwn yn nodi gofynion polisi a goblygiadau posibl y TAN 15 newydd ar gyfer y rhanbarth, a lle bynnag y bo modd, yn cyfeirio datblygiadau at ardaloedd sydd â pherygl is o lifogydd.

12.5 Gwnaed gwaith pellach gan JBA ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin i ychwanegu at yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd rhanbarthol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys asesiad lefel uchel o safleoedd i'w cynnwys o fewn y CDLl diwygiedig gan ystyried eu derbynioldeb yn erbyn profion cyfiawnhad a meini prawf derbynioldeb TAN15.

12.6 Fel rheol caiff Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd eu cwblhau mewn tri cham, gyda lefel gynyddol o fanylion yn ofynnol yn y dadansoddiad ar bob cam. Mae Cam 1 yn cynnwys astudiaeth gwmpasu desg sy'n asesu'r wybodaeth a'r data a gesglir gan sawl rhanddeilaid, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Dŵr Cymru ac Awdurdodau Lleol, ar ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Mae Cam 2 yn adeiladu ar y wybodaeth a gasglwyd yng Ngham 1 trwy ddadansoddi'r data yn fanylach.

12.7 Mae angen Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar Gam 3 os nad oedd Cam 1 a 2 yn gallu bodloni gofynion TAN15 ar gyfer safle datblygu posibl oherwydd nad oedd data ar gael. Maent yn gofyn am ddadansoddiad manylach, technegol o fecanweithiau a chanlyniadau llifogydd a gallant fod yn gofyn am ddadansoddiad hydrolegol a/neu fodelu hydrolig.

Mae TAN15 yn dal i gael ei atal, gyda'r diweddariad diwethaf yn awgrymu y byddai'n dod i rym ddiwedd 2023 – dechrau 2024. Rydym yn aros am y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru..

12.8 Parthau Map Cyngor Datblygu, fel y'u mynegir yn TAN 15 (2004 + TAN15 Drafft wedi'i ddiweddaru): Mae'r Mapiau Cyngor Datblygu yn darparu parthau perygl llifogydd dangosol ar gyfer Cymru, yn seiliedig ar lifogydd afonol a llanwol. Mewn egwyddor, dylid annog datblygiadau arfaethedig i ffwrdd o ardaloedd lle mae'r perygl yn uwch ac yn fwy tuag at ardaloedd lle mae'r perygl o lifogydd yn is. Lle mae datblygu mewn maes risg uchel yn hanfodol neu'n strategol bwysig ar gyfer adfywio, yna ceir amrywiaeth o brofion cyfiawnhau a amlinellir yn TAN 15 y mae'n rhaid eu bodloni i lywio penderfyniadau ynghylch a allai datblygiad penodol symud yn ei flaen.

12.9 Bydd modd datblygu cynigion mewn ardaloedd lle mae'r perygl yn uwch yn amodol ar ymchwiliad manwl drwy asesiadau o ganlyniadau llifogydd ar gyfer safleoedd penodol yn ystod y cam cais cynllunio a thrwy ddarparu mesurau lliniaru priodol.

12.10 Draeniad: Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (Atodlen 3) yn sefydlu Cyrff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy mewn Cynghorau Sir ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygiadau newydd gynnwys nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) sy'n cydymffurfio â safonau cenedlaethol:

12.11 Yn achos yr holl ddatblygiadau newydd sy'n cynnwys mwy nag 1 tŷ preswyl neu lle mae'r ardal adeiladu'n 100 metr sgwâr neu'n fwy, bydd angen cyflwyno SuDS, sy'n dangos y cydymffurfir â safonau statudol SuDS o ran y gwaith dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw y systemau draenio dŵr arwyneb ar ddatblygiadau newydd.

12.12 Gall SuDS gael eu defnyddio'n effeithiol mewn ardaloedd gwledig a threfol er mwyn cefnogi ailddatblygiadau a datblygiadau newydd a lleihau'r risg o lifogydd yn sgil dŵr wyneb a chreu cyfleoedd ar gyfer gwell ansawdd dŵr, cynefinodd bio-amrywiol ffyniannus a llecynnau hamdden cymunedol newydd

12.13 Er bod y broses o gydsynio i SuDS yn rhan o drefn reoleiddio ar wahân i gynllunio, mae'r cynllun yn cydnabod pwysigrwydd ystyried SuDS yn rhan o'r cysyniad dylunio o'r cychwyn cyntaf fel rhan o ddull creu lleoedd. Yn hyn o beth, mae'r Cynllun yn cydnabod y gall SuDS gael eu defnyddio'n effeithiol mewn ardaloedd gwledig a threfol er mwyn cefnogi ailddatblygiadau a datblygiadau newydd a lleihau'r risg o lifogydd yn sgil dŵr wyneb a chreu

cyfleoedd ar gyfer gwell ansawdd dŵr, cynefinodd bio-amrywiol ffyniannus a llecynnau hamdden cymunedol newydd[4].

12.14 Ailgylchu a Rheoli Gwastraff: Fel Awdurdod Gwastraff Unedol, y Cyngor sy'n gyfrifol am gasglu a gwaredu gwastraff y Sir. Ar hyn o bryd caiff y gwaith o gasglu a gwaredu gwastraff yn y Sir ei gontractio allan i CWM Environmental Ltd – cwmni teckal i'r awdurdod lleol

12.15 Fel Awdurdod Cynllunio Gwastraff, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â chynllunio defnydd tir o ran y mathau canlynol o wastraff a reolir:

- Gwastraff a Gesglir gan Awdurdodau Lleol (LACW)
- Gwastraff Diwydiannol a Masnachol (I&C)
- Gwastraff Adeiladu a Dymchwel (C&D)
- Gwastraff Amaethyddol; a
- Gwastraff Peryglus

12.16 Mae'r gwaith o reoleiddio a monitro gweithdrefnau rheoli gwastraff a safleoedd yn cael ei rannu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Chyngor Sir Caerfyrddin fel yr Awdurdod Cynllunio Gwastraff. Mae CNC yn gyfrifol am safonau gweithredu ar safleoedd, a'r posibilrwydd y gallent lygru'r amgylchedd. Mae'r Awdurdod Cynllunio Gwastraff yn gyfrifol am faterion rheoleiddio megis defnydd tir, colli amwynder, symudiadau traffig, terfynau amser ar gyfer gweithrediadau, proffiliau daear terfynol, adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd o safleoedd ac ati, drwy ei bolisi cynllunio a'i swyddogaethau rheoli datblygu.

12.17 Bydd angen i'r CDLl Diwygiedig sicrhau ei fod yn darparu ar gyfer unrhyw ofynion newydd, ac felly cynhelir trafodaeth agos â'r swyddogion gwastraff trefol wrth baratoi'r CDLl Diwygiedig. Er enghraifft, bydd angen i'r CDLl Diwygiedig wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer cyfleusterau sy'n annog symud gwastraff i fyny hierarchaeth gwastraff, ac felly dylai fod yn ddigon cefnogol o safleoedd dod â gwastraff, cyfleusterau dinesig, gorsafoedd trosglwyddo gwastraff a Chyfleusterau Ailgylchu Deunyddiau.

12.18 Ceir rhagor o wybodaeth am Reoli Gwastraff ac Ailgylchu yn y Papur Pwnc Gwastraff (2023).

[4] Tudalennau gwe Cyngor Sir Caerfyrddin - Systemau Draenio Cynaliadwy - https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/cynllunio/corff-cymeradwyo-draenio-cynaliadwy-sab/#.Xi8b_-RXVPY

# 13. Seilwaith Cyfleustodau

**13.1 Dŵr a Dŵr Gwastraff:** Mae dŵr yn adnodd hynod werthfawr ac mae materion fel llygryddion, atal llifogydd, dŵr daear a diogelu a gwella ecosystemau dyfrol i gyd yn faterion pwysig i'w hystyried. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2000/60/EC) yn nodi'r gofynion mewn perthynas â'r amgylchedd dŵr a dylid rhoi ystyriaeth lawn i'w chynnwys.

13.2 Gall llygredd dŵr ddod o un ffynhonnell, neu o nifer o ffynonellau megis dŵr ffo amaethyddol a threfol. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi rhoi'r cyfle i weithio gyda sefydliadau partner, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru, i gydnabod yr angen i wella'r amgylchedd dŵr cyfan a hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o ddŵr er budd pobl a bywyd gwyllt fel ei gilydd. Mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon wedi'u paratoi sy'n nodi amcanion a safonau amgylcheddol, a rhaglen o fesurau ar gyfer eu cyflawni.

13.3 Mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am gyflenwi a thrin dŵr yn y Sir. Mae Dŵr Cymru yn parhau i ateb y galw cynyddol am wasanaethau carthffosiaeth drwy fecanweithiau deddfwriaethol a rheoleiddiol, a buddsoddiad mewn cyflenwi/galw fel y nodir yn y Rhaglen Rheoli Asedau.  Bydd buddsoddiad y Rhaglen Rheoli Asedau yn cefnogi twf ac adfywiad yn y dyfodol. Caiff gofynion adnoddau dŵr Sir Gaerfyrddin eu bodloni’n gyfan gwbl gan Dŵr Cymru, ac mae’r sir wedi ei lleoli o fewn system defnydd cysylltiol Tywi (Parth Adnoddau Dŵr Tywi). Mae Cynllun Rheoli Adnoddau diweddaraf Dŵr Cymru yn rhagfynegi y bydd gan Barth Adnoddau Dŵr Tywi gyfenwadau dros ben drwy gydol cyfnod y CDLl Diwygiedig, yn seiliedig ar y cynnydd o 14.6% a ragfynegir mewn niferoedd aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin rhwng 2014 a 2039, a chynnydd o 82,751 i 89,532 rhwng 2018 a 2033. Mae'r rhagolwg twf cyffredinol hwn yn fwy na'r twf y darperir ar ei gyfer yn y CDLl Diwygiedig.

13.4 Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ac ymgynghori â hwy ynglŷn â chynigion datblygu fel y bo'n briodol. Bydd y Cyngor hefyd yn ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â chynigion datblygu yng nghyffiniau coridorau afonydd ac aberoedd. Dylai darpar ddatblygwyr ofyn am gyngor a chydsyniad Cyfoeth Naturiol Cymru pan fo hynny'n briodol. Os yw'r cynigion yn ymwneud â phrif afon neu gwrs dŵr cyffredin, dylai'r gofyniad am glustogfa briodol sy'n ffinio â'r ddwy dorlan gael ei ymgorffori mewn unrhyw gynigion er mwyn diogelu ac annog bioamrywiaeth leol.

**13.5 Ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol (ACA).** Ym mis Ionawr 2021 cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru dargedau newydd i leihau lefelau ffosffad mewn afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ledled Cymru.

13.6 Roedd yr adolygiad yn dilyn tystiolaeth newydd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur y gallai tywydd cynhesach a sychach, a ragwelir o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, leihau llif afonydd yn ystod yr haf ac felly cynyddu crynodiadau ffosffad. Mae hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth newydd ynghylch effeithiau niweidiol ffosffadau ar rywogaethau ac ecosystemau dŵr.

13.7 Ar hyn o bryd, mae dros 60% o'r cyrff dŵr yng Nghymru yn methu'r targedau llymach, a gofynnir i awdurdodau cynllunio lleol Cymru gymryd mwy o gamau i atal yr amgylchedd rhag dirywio ymhellach. Mae'n golygu bod yn rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer datblygu o fewn dalgylchoedd afonydd ACA - yn enwedig y rhai a fydd yn cynyddu cyfaint neu grynodiad y dŵr gwastraff - brofi bellach na fydd y dyluniad yn cyfrannu at gynyddu lefelau ffosffad.

13.8 Yn Sir Gaerfyrddin, mae Afon Teifi, Afon Tywi, Afon Gwy ac Afon Cleddau wedi'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth arbennig afonol. Ar hyn o bryd mae Afon Teifi, Afon Gwy ac Afon Cleddau yn methu targedau Cyfoeth Naturiol Cymru. Er bod Afon Tywi yn rhagori ar ei thargedau, prin yw'r hyblygrwydd.

13.9 Bydd gan ddatblygiadau yn agos at yr afonydd hyn gapasiti cyfyngedig o bosib i gysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus a rhaid dod o hyd i atebion eraill a fydd yn bodloni'r targedau newydd, naill ai drwy fod yn niwtral o ran ffosffad neu wella lefelau ffosffad

13.10 Bydd datblygiad wedi'i leoli fel y gall gael ei wasanaethu'n dda gan seilwaith sy'n bodoli eisoes neu sydd wedi'i gynllunio. Bydd hyn yn golygu gwneud y mwyaf o ddefnyddio'r seilwaith presennol neu ystyried sut y gellir cydlynu'r ddarpariaeth seilwaith yn effeithiol i gefnogi cynlluniau datblygu. Rhoddwyd sylw i'r materion hyn wrth baratoi'r CDLl diwygiedig, gan weithio ar y cyd â CNC a Dŵr Cymru, mae'r Cynllun Gweithredu a'r Strategaeth Rheoli Maetholion yn canolbwyntio datblygiad i ardaloedd a wasanaethir gan WwTW sydd â chyfyngiadau ffosfforws ar y Trwyddedau a'r gallu i dyfu. Mae adolygiad CNC o drwyddedau wedi datgloi capasiti ar gyfer twf mewn rhai ardaloedd sy'n cael eu gwasanaethu gan WwTW

13.11 Gwaredu Dŵr Wyneb Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli: Bydd cynigion sy'n draenio i Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli ac sy'n cael eu diffinio fel rhai mawr o dan Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn ddarostyngedig i ofyniad ar gyfer gwaredu swm mesuradwy o ddŵr wyneb o'r system garthffosiaeth gyfun fel y nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cilfach Tywyn. Ceir rhai pryderon y gall datblygiadau newydd yn nalgylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli

arwain at risg o ddirywiad yn ansawdd dŵr Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd. Mae hyn oherwydd bod y rhan fwyaf o'r systemau carthffosiaeth yn ardal Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli yn rhai cyfun (llifoedd dŵr wyneb a dŵr budr).

13.12 Tra bod Dŵr Cymru wedi cadarnhau bod yna gapasiti digonol yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli i gyflawni'r twf a nodir yn y Cynllun hwn, mae hefyd wedi gofyn ei bod yn ofynnol i ddatblygiadau perthnasol yn nalgylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli gymryd camau lliniaru i gael gwared ar ddŵr wyneb o'r system fel rhan o'r broses o roi'r caniatâd cynllunio.

13.13 Ceir pryder y gall cyflwyno dŵr budr ychwanegol arwain at orlwytho'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff, yn ogystal â chynyddu amlder yr arllwysiadau o garthffosiaeth storm fydd yn gorlifo allan i Fae Caerfyrddin a'r Aberoedd yn ystod glaw sylweddol. Gall y materion hyn arwain at lifogydd lleol hefyd.

13.14 Paratowyd Canllawiau Cynllunio Atodol Cilfach Tywyn i ddarparu canllawiau penodol mewn perthynas ag ystyried cynigion datblygu perthnasol sydd wedi'u lleoli yn nalgylch Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli.

13.15 Cynhaliodd Dŵr Cymru asesiad ar ein rhan ynglŷn â Llif Tywydd Sych i'r safleoedd Gwaith Trin Dŵr Gwastraff a ph'un a oes unrhyw ormodiant yn y safleoedd Gwaith Trin Dŵr Gwastraff ledled y Sir, neu os nad yw'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn cydymffurfio ar hyn o bryd ar Lif Tywydd Sych. Llif Tywydd Sych yw'r llif dyddiol cyfartalog i Waith Trin Dŵr Gwastraff yn ystod cyfnod heb law.

13.16 Mae'r asesiad wedi tynnu sylw at y ffaith y disgwylir gormodiant mewn Llif Tywydd Sych mewn 12 Gwaith Trin Dŵr Gwastraff ledled y Sir. Mae'r 6 yn cynnwys Parc y Sblot yng Nghaerfyrddin, San Clêr, Hendy-gwyn ar Daf, Adpar, Cross Hands, Cwmgwili Llannant, Talacharn, Llanfynydd, Pencader, Pentrecwrt a Phentywyn. Gyda golwg ar y gormodiannau hyn, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gosod cydsyniadau newydd ar Dŵr Cymru, a bydd yn rhaid i Dŵr Cymru ymgymryd â chynlluniau 'ansawdd' yn y safleoedd Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hyn er mwyn bodloni'r cydsyniadau newydd. Mae hon yn broses weddol safonol ar gyfer Dŵr Cymru.

13.17 Trydan: Mae'r Grid Cenedlaethol yn gweithredu'r system drawsyrru trydan genedlaethol ledled Prydain Fawr. Rôl cwmnïau dosbarthu lleol yw dosbarthu trydan i gartrefi

a busnesau. Mae Western Power Distribution (WPD) yn gyfrifol am sicrhau bod trydan yn cael ei ddosbarthu i gartrefi a busnesau ledled y Sir.

13.18 Mae'n bwysig sicrhau bod capasiti digonol yn bodoli nawr ac ar gyfer y dyfodol, felly er mwyn diwallu unrhyw anghenion bydd yr awdurdod yn gweithio'n agos gyda Western Power Distribution i sicrhau bod y darpariaethau yn eu lle.

13.19 Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ynni adnewyddadwy ar lefel genedlaethol. Un o'r targedau hyn yw y dylai Cymru gynhyrchu 70% o'r trydan y mae'n ei ddefnyddio o ynni adnewyddadwy erbyn 2030. Felly, mae'n bwysig bod yr Awdurdod Lleol yn cadw'r targed hwn mewn cof wrth ddarparu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer dyraniadau newydd a phresennol.

13.20 Gall y galw am lwythi trydan fod yn broblem sy'n codi wrth gyflwyno datblygiadau newydd. Yn sgil cyflwyno polisi CCH2 – Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan yn y CDLl diwygiedig ceir posibilrwydd y bydd y galw yn cynyddu. Yn sgil cyflwyno datblygiadau newydd daw'r galw am fwy o drydan, ac mae WPD wedi cydnabod meysydd posibl lle bydd angen seilwaith newydd neu estynedig i ateb y galw am lwythi. Dangosodd eu canlyniadau y gellid bodloni'r galw yn eithaf rhwydd mewn aneddiadau llai, ac mai yn yr aneddiadau mwy yn unig y mae angen gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith seilwaith. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys Rhydaman, Porth Tywyn, Caerfyrddin, Cross Hands a Llanelli. Mae WPD wedi cydnabod y bydd Rhydaman, Porth Tywyn, Cross Hands a Llanelli yn gofyn am seilwaith newydd neu estynedig yn ôl y gofyn, er mwyn ateb y galw newydd. Cydnabyddir bod yna gyfyngiadau yng Nghaerfyrddin o ran y galw am lwythi felly mae'n bosibl y bydd angen eu diweddaru rywbryd yn ystod cyfnod y cynllun.

13.21 Band Eang a Thelathrebu: Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r diwydiant telathrebu a'r rheoleiddiwr cyfathrebu Ofcom i gynyddu mynediad i fand eang tra-chyflym dibynadwy, llecynnau diwifr a gwell argaeledd ffonau symudol i'r holl breswylwyr a busnesau, gan eu cynorthwyo (lle bo'n briodol) wrth gyflawni eu cynlluniau buddsoddi i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion seilwaith.

13.22 Rhaid i ddatblygiadau newydd o bwys gael eu gwasanaethu gan gysylltiad band eang cyflym a dibynadwy â'r safle. Dylai datblygiadau llai ddarparu mynediad at y cysylltiad cyflym mwyaf hyfyw yn ogystal â phibellau ychwanegol ar gyfer cysylltiad ffeibr i'r adeilad yn y dyfodol neu ddarpariaeth arall. Dylid nodi bod BT Openreach a darparwyr eraill yn cynnig cysylltiad

band eang tra-chyflym ar gyfer pob datblygiad newydd, naill ai'n rhad ac am ddim, neu fel rhan o bartneriaeth wedi'i chyd-ariannu gan gynnwys partneriaethau wedi'u hariannu gan y gymuned. Bydd cysylltiad ffeibr i'r adeilad yn cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim i ddatblygiadau tai gyda chant o anheddau neu fwy. Gallai datblygiadau sy'n llai na hyn orfod darparu cyfraniadau i sicrhau cysylltiad ffeibr i'r adeilad neu byddant yn cael cysylltiadau copr am ddim.

13.23 Mewn cyfran fach o achosion, na fydd band eang ar gael mewn datblygiadau newydd oherwydd eu bod mewn lleoliad gwledig iawn. Mae'r polisi felly'n cynnwys y posibilrwydd o ddarparu swm o arian i gyfrannu tuag at ateb arall. Fodd bynnag, lle bynnag y bo modd dylai'r ateb gynnwys bod y datblygiad yn gwneud y darpariaethau angenrheidiol ar gyfer seilwaith ar y safle er mwyn hwyluso'r gwelliannau. Bydd darparu band eang cyflym a dibynadwy i ardaloedd gwledig yn dod â mwy o gyfleoedd i'r ardal a allai, yn ei dro, hybu'r economi wledig ac arallgyfeirio economaidd.

# Atodiad 1

**Noder: Mae hon yn ddogfen sy'n esblygu. Bydd newidiadau pellach yn cael eu gwneud yn ystod cyfnod y Cynllun i sicrhau bod yr Atodiad Seilwaith yn cael ei ddiweddaru.**

## PrC1/h6 – Heol Llansteffan

| Enw/Cyf Dyraniad Safle | Maint y Safle (ha) | Math o Ddyraniad | Cyfanswm yr Unedau | Cyfran Graddoli |
|---|---|---|---|---|
| PrC1/h8 – Heol Llansteffan | 1.597 | Preswyl | 50 | Blwyddyn 6-10 |

**Disgrifiad o'r Safle**

Wedi ei leoli yn Nhre Ioan, i'r Dwyrain o Gaerfyrddin, arferai'r safle fod yn lleoliad hen Ysgol Gyfun y Frenhines Elisabeth Maridunum. Ers hynny mae'r ysgol wedi cael ei dymchwel ac mae'r tir wedi cael ei adfer. Mae'r safle y drws nesaf i Ganolfan Hamdden Caerfyrddin ac, ar hyn o bryd, mae'n laswelltir gwag nad yw'n cael ei ddefnyddio i ddibenion hamdden. Saif yn agos i Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth ac Ysgol Rhyd y Gors. Ceir mynediad i'r safle o Heol Llansteffan, sy'n rhedeg ar hyd ochr orllewinol y safle. Mae ardal breswyl bresennol wedi ei lleoli gyferbyn â'r safle. Mae llwybr cyhoeddus yn gorwedd i'r Dwyrain o'r safle, sydd yn ei dro yn cael ei ffinio gan arglawdd i orlifdir yr afon Tywi. Mae afon Tywi wedi cael ei dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

**Problemau a Chyfyngiadau Allweddol y Safle:**

- Mae safle'r datblygiad arfaethedig tua 20 metr oddi wrth ACA Afon Tywi.
- Posibilrwydd i'r cyfnod adeiladu/gweithredol effeithio ar ansawdd dŵr oherwydd dŵr ffo.
- Gall fod yn risg i ddyfrgwn a all fod yn yr ardal.
- Llwybr troed yn ymyl y safle.
- Mae dyddodion tywod a graean arwynebol yn gorchuddio rhan fechan o'r safle.
- Mae'r safle'n elwa o wrychoedd parod, ac yn cyfrannu at orchudd canopi trefol.

**Gofynion Seilwaith a Pholisi Allweddol (gan gynnwys y costau'n fras os ydynt yn hysbys):**

- Cyfraniad i ddarpariaeth Mannau Agored
- Cyfraniad i Addysg
- Bydd y safle'n cynnwys cyfran o dai fforddiadwy.
- Draenio Dŵr Wyneb
- Integreiddio coed a gwrychoedd trefol ar y safle fel yr amlinellwyd yn yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd a Glas.

**Gofynion Gwybodaeth Ategol Allweddol:**

- D/B

## PrC1/MU1 – Gorllewin Caerfyrddin

| **Enw/Cyf Dyraniad Safle** | **Maint y Safle (ha)** | **Math o Ddyraniad** | **Cyfanswm yr Unedau** | **Cyfran Graddoli** |
|---|---|---|---|---|
| PrC1/MU1 – Gorllewin Caerfyrddin | 70 | Preswyl | 700 | Blwyddyn 1-15 |

**Disgrifiad o'r Safle**

Mae safle Gorllewin Caerfyrddin, a gafodd ei nodi fel safle strategol yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, yn parhau i gael ei nodi fel safle defnydd cymysg ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau gan gynnwys preswylio, addysg, amwynderau / hamdden, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol. Wedi'i leoli ar ymyl gorllewinol Caerfyrddin, mae'r safle'n ffurfio porth pwysig i'r dref. Tir amaethyddol ydyw yn bennaf ac yn donnog ei natur. Ar ei derfyn gorllewinol mae pentrefan bach Travellers Rest, yr A40 i'r de a Heol Ffynnon Job i'r dwyrain. Mae Prifysgol y Drindod Dewi Sant a'r Egin i'r gogledd-ddwyrain o'r safle.

Mae Briff Datblygu wedi cael ei fabwysiadu ar gyfer y safle er mwyn sicrhau yr ymgymerir â datblygiad cynhwysfawr ac integredig ar y safle. Ers mabwysiadu'r Briff yn 2010, mae'r ffordd gyswllt wedi ei chwblhau a thai wedi eu cwblhau ar ochr ddeheuol y safle. Mae'r Cyngor ynghyd â phartneriaid, tirfeddianwyr ac adeiladwyr tai wedi buddsoddi amser ac adnoddau i ddarparu'r safle hwn dros y blynyddoedd diwethaf.

**Problemau a Chyfyngiadau Allweddol y Safle:**

- Gormodedd tebygol yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) Parc y Sblot
- Nant Tawelan a pherygl llifogydd;
- Ardal Gadwraeth;
- Amgylchedd archeolegol a hanesyddol.
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig; a,
- Priffyrdd a mynediad

**Gofynion Seilwaith a Pholisi Allweddol (gan gynnwys y costau'n fras os ydynt yn hysbys):**

- Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin – mae'r ffordd gyswllt yn croesi o Travellers Rest ar yr A40 i'r ardal academaidd a'r cyfryngau newydd yn Ffordd y Coleg.
- Tai Fforddiadwy
- Darpariaeth Mannau Agored – Anhysbys ar hyn o bryd
- Ysgol Gynradd newydd

**Gofynion Gwybodaeth Ategol Allweddol:**

- D/B

## PrC1/MU2 – Pibwr-lwyd

| Enw/Cyf Dyraniad Safle | Maint y Safle (ha) | Math o Ddyraniad | Cyfanswm yr Unedau | Cyfran Graddoli |
|---|---|---|---|---|
| PrC1/MU2 – Pibwr-lwyd | 34.7 | Defnydd Cymysg | 249 | Blwyddyn 6-10 |

**Disgrifiad o'r Safle:**
Mae'r safle wedi'i leoli o fewn ardal sy'n cael ei dominyddu gan gyfleusterau cyflogaeth, manwerthu ac addysg. Mae'n ddyraniad defnydd cymysg mawr sydd wedi ei leoli'n strategol i'r de o Gaerfyrddin ac yn union i'r de o Barc Pen-sarn. Saif Campws Pibwr-lwyd Coleg Sir Gâr o fewn ffiniau'r safle. Mae topograffeg y safle yn wastad ar y cyfan, ychydig ar lethr mewn mannau, ac mae'n dir glas; tir amaethyddol oedd y rhan fwyaf o'r tir gynt. Mae'r A48 yn dilyn y terfyn Dwyreiniol ac mae'r A484 yn dilyn y terfyn Gorllewinol. Mae'r ddwy ffordd yn arwain yn uniongyrchol at Gylchfan Pen-sarn. Mae'r defnydd arfaethedig ar gyfer y safle yn gymysgedd o ddefnyddiau posibl, gan gynnwys defnyddiau preswyl, addysgiadol a masnachol yn cynnwys swyddfeydd a diwydiant ysgafn.

**Problemau a Chyfyngiadau Allweddol y Safle:**
- Agos i'r A48 – ystyriaethau priffyrdd
- Agos i Ardal Gadwraeth Arbennig Afon Tywi (ACA)
- Cymharol agos i Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd
- Gormodedd tebygol yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) Parc y Sblot

**Gofynion Seilwaith a Pholisi Allweddol (gan gynnwys y costau'n fras os ydynt yn hysbys):**
- Cyfleusterau addysgol – Cyfraniad o £372,000
- Mannau hamdden a chwarae ffurfiol
- Angen posibl am gyffordd â graddfeydd ar wahân wrth bont Bolahaul
- Gwanhau draeniad
- Darparu Mannau Agored i'r cyhoedd
- 20-25% o Dai Fforddiadwy yn unol â pholisi AHOM1

**Gofynion Gwybodaeth Ategol Allweddol:**
- Asesiad Trafnidiaeth
- Cynllun Rheoli Sŵn
- Asesiad Ansawdd Aer
- Arfarniad Ecolegol
- Arolwg Cynefinoedd Cam 1

## PrC2/h3 - Parc y Strade, Gorllewin Llanelli

| Enw/Cyf Dyraniad Safle | Maint y Safle (ha) | Math o Ddyraniad | Cyfanswm yr Unedau | Cyfran Graddoli |
|---|---|---|---|---|
| PrC2/h3 - Parc y Strade, Gorllewin Llanelli | 0.99 | Preswyl | 94 | Wedi ei gwblhau |

**Disgrifiad o'r Safle:**
PrC2/h3 - Parc y Strade Gorllewin Llanelli, yw'r agwedd sy'n weddill o safle presennol GA2/h2 y Cynllun Datblygu Lleol, Parc y Strade gynt. Mae'r safle wedi'i leoli o fewn ardal drefol Llanelli, yn agos i ganol y dref sydd i'r dwyrain a Pharc Arfordirol y Mileniwm sydd yn union i'r de. Y tu draw i'r ardal o dai sy'n ffinio â'r safle i'r gorllewin mae Ysgol Y Strade, ysgol uwchradd a rhan o Goleg Sir Gâr. Mae traffordd yr M4 i'r gogledd-ddwyrain o'r dref a cheir mynediad iddi ar hyd ffordd yr A4138 sy'n ymuno â'r draffordd wrth Gyffordd 48. Mae'r safle'n sefyll ar y lle yr arferai hen stadiwm rygbi Parc y Strade fod ynghyd â nifer o gaeau ymarfer a maes parcio cysylltiedig, swyddfeydd. a thir arall i'r dwyrain o'r stadiwm. Mae'r safle hefyd yn cynnwys ardal lai o dir gwag, a ddefnyddid i ddibenion diwydiannol gynt ac sy'n cynnwys adeiladau adfeiliedig amrywiol.

**Problemau a Chyfyngiadau Allweddol y Safle:**

Mae'r datblygiad wedi ei gwblhau.

**Gofynion Seilwaith a Pholisi Allweddol (gan gynnwys y costau'n fras os ydynt yn hysbys):**

- Cyfraniad i ddarpariaeth Mannau Agored
- Cyfraniad i Addysg
- Lliniaru Perygl Llifogydd
- Tai Fforddiadwy

**Gofynion Gwybodaeth Ategol Allweddol:**

Mae'r datblygiad wedi ei gwblhau.

## PrC2/h15 – Heol Maesarddafen / Erw Las, Llwynhendy

| Enw/Cyf Dyraniad Safle | Maint y Safle (ha) | Math o Ddyraniad | Cyfanswm yr Unedau | Cyfran Graddoli |
|---|---|---|---|---|
| PrC2/h15 – Heol Maesarddafen / Erw Las, Llwynhendy | 2.117 | Preswyl | 94 | Blwyddyn 6-10 |

**Disgrifiad o’r Safle:**
Mae safle’r cais wedi ei leoli i’r De-ddwyrain o Ganol Tref Llanelli ac mae’n dod o fewn terfyn datblygu Llanelli. Mae'r safle ar hyd pen deheuol Heol Maes-ar-ddafen ac yn union yn ymyl Stadiwm Parc y Scarlets. Mae Parc Pemberton a Pharc Adwerthu Trostre yn agos. Mae'r A484 yn rhedeg i'r de o'r safle, sy'n rhoi mynediad hawdd i Dre-gŵyr, Fforest Fach ac Abertawe.

**Problemau a Chyfyngiadau Allweddol y Safle:**

- Ffosydd draenio o fewn y safle ac ar hyd y ffiniau. Bydd angen cadw'r ffosydd hyn gyda gwrthbwysiad priodol neu eu sianelu.
- Mae angen dyluniad sensitif oherwydd bod rhai rhannau yn agos i ddatblygiadau preswyl.
- Mae nifer o bibellau tanddaearol yn croesi'r safle.
- Mynedfeydd mwyngloddio gyda phellteroedd gwrthbwyso sy'n disgyn o fewn ac o gwmpas y safle.
- Presenoldeb posibl gweithfeydd arwynebol.
- Mae’r topograffeg / lefelau tir presennol yn debygol o newid.
- Sŵn o'r A484
- Triniaeth Ffiniau

**Gofynion Seilwaith a Pholisi Allweddol (gan gynnwys y costau’n fras os ydynt yn hysbys):**

- Seilwaith Gwyrdd a Glas.
- Draeniad.
- Caeau chwarae i blant.
- Mannau agored ffurfiol ac anffurfiol.
- Llwybr troed cyhoeddus yn tueddu i orlifo – dylid gwneud darpariaeth i amddiffyn y llwybr troed rhag llifogydd yn y dyfodol.

**Gofynion Gwybodaeth Ategol Allweddol:**
Mae Materion a gadwyd yn ôl wedi'u cymeradwyo ar gyfer y safle ac mae'r dogfennau canlynol wedi'u cyflwyno fel rhan o'r cais

- Datganiad Dull Coedyddiaeth
- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Dyluniad Tirwedd Feddal Manwl
- Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg
- Lleoliadau Blychau Adar ac Ystlumod ynghyd â Pwyntiau Mynediad i Ddraenogod
- Cynllun Strategaeth Tân
- Gorffeniadau tai
- Strategaeth Barcio
- Cynllun y Strategaeth Sbwriel
- Cynllun Arfaethedig Lloriau Adeilad
- Strydluniau Arfaethedig
- Cynllun Llety Math Uned
- Cynllun Gwaith Allanol
- Cynlluniau a Gweddluniau
- Cynllun Cynllunio
- Cynllun Strategaeth Ffotofoltäig
- Peirianneg Cynllun

Mae'r canlynol yn ofynion fel amodau cyn-cychwyn:

- Cynllun manwl i ehangu'r droedffordd bresennol
- Cynllun goleuadau allanol.
- Cynllun ar gyfer cynnal a chadw a rheoli'r man agored cyhoeddus

# PrC2/h4 - Doc y Gogledd (gan gynnwys Pontrilas

| **Enw/Cyf Dyraniad Safle** | **Maint y Safle (ha)** | **Math o Ddyraniad** | **Cyfanswm yr Unedau** | **Cyfran Graddoli** |
|---|---|---|---|---|
| PrC2/h4 - Doc y Gogledd (gan gynnwys Pontrilas gynt)[1] | 12 | Preswyl | 210 | Blwyddyn 6-10 |

**Disgrifiad o'r Safle -** Wedi'i leoli yng nghornel ogledd-orllewinol Doc y Gogledd yn Llanelli. Mae'r safle wedi'i leoli yn union i'r gogledd o ddatblygiad tai presennol Pentre Doc y Gogledd ac i'r gorllewin o rai o'r unedau diwydiannol/masnachol presennol sydd wedi'u lleoli ar hyd ffin ogleddol Doc y Gogledd. Mae Parc Arfordirol y Mileniwm ar ffin orllewinol safle'r cais, a'r brif linell reilffordd yw'r ffin ogleddol y safle. Mae'r darn tir gwag sy'n ffurfio safle'r cais wedi'i orchuddio'n bennaf gan lystyfiant sydd wedi gordyfu, gyda rhywfaint o lawr caled mewn mannau. Arferai hen Ffatri Pontrillas sefyll ar ran ogledd-ddwyreiniol y safle, ond fe'i dymchwelwyd yn ddiweddar dan hysbysiad. Mae'r safle'n ffinio â'r ffordd fynediad sy'n mynd yr holl ffordd o gwmpas Doc y Gogledd ac a elwir yn Traeth Ffordd.

**Problemau a Chyfyngiadau Allweddol y Safle:**

- Problemau ecolegol o ran adar sy'n nythu, poblogaeth ymlusgiaid
- Tir halogedig anhysbys posibl oherwydd maint y safle
- Ffin ogleddol yn union gerllaw'r rheilffordd - Problemau sŵn a dirgryniad posibl
- Agosrwydd i Ardal Rheoli Ansawdd Aer
- Agosrwydd i Adeiladau Rhestredig, yr agosaf oedd tŵr tŷ'r pwmp.

**Gofynion Seilwaith a Pholisi Allweddol (gan gynnwys y costau'n fras os ydynt yn hysbys):**

- Ystyried sicrhau bod darpariaethau ar gael ar gyfer pwyntiau gwefru cerbydau trydan gan y bydd cynnydd mewn symudiad cerbydau yn yr ardal. Bydd hyn yn unol â gofynion polisi diweddaraf Llywodraeth Cymru i wella ansawdd aer
- Cyfleusterau Addysgol – Cyfraniad o £388,000
- Bydd datblygu'n digwydd gan gydymffurfio'n llwyr â'r argymhellion a wnaed yn yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd a ddaeth i law ar 19 Rhagfyr 2018.
- Ardal Chwarae/Man Agored Cyhoeddus ar y safle i'w sicrhau trwy amod
- Gwelliannau priffyrdd i Gylchfan Heol y Sandy a Theithio Llesol - Cyfraniad o £35,000
- 20% o Dai Fforddiadwy ar y safle yn unol â pholisi AH1

**Gofynion Gwybodaeth Ategol Allweddol:**
**Mae gan y safle ganiatâd cynllunio amlinellol gyda'r wybodaeth ategol ganlynol eisoes yn cael ei hystyried:**

- Asesiad Ecolegol, Arolwg Ymlusgiaid ac Adar a Lliniaru Cynefinoedd Tir Llwyd
- Adroddiad Cynllun Gwaredu Clymog Japan.

**Bydd angen i unrhyw gais manwl ystyried y canlynol ymhellach**

- Strategaeth Ddraenio a Datganiad Ansawdd Dŵr
- Datganiad Trafnidiaeth
- Asesiad Ansawdd Aer
- Adroddiad Coedyddiaeth
- Asesiad Hanesyddol wrth Ddesg o'r Amgylchedd
- Asesiad Sŵn a Dirgryniad
- Asesiad Ecoleg
- Adroddiad Astudiaeth Ddesg ar gyfer Cam 1
- Asesiad Peirianneg
- Asesiad o Ganlyniad Llifogydd
- Cylchfan y Sandy – Asesu Gallu
- Asesiad Risg Cloddio am Lo
- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Adroddiad Sgrinio Rheoliadau Cynefinoedd
- Strategaeth Lliniaru Cynefin Tir Llwyd

---

[1] Mae'n bwysig nodi y bydd nifer o'r materion tystiolaethol y cyfeirir atynt wedi cael eu trafod fel rhan o'r cais cynllunio, gyda'r problemau wedi cael eu trin a'u datrys. Rhif y cais: S/38285
http://online.carmarthenshire.gov.uk/eaccessv2/pa-applicationsummary.aspx?applicationnumber=S/38285

## PrC2/h19 – Gewen y Bryn

| Enw/Cyf Dyraniad Safle | Maint y Safle (ha) | Math o Ddyraniad | Cyfanswm yr Unedau | Cyfran Graddoli |
|---|---|---|---|---|
| PrC2/h19 - Genwen, y Bryn[2] | 8 | Preswyl | 240 | Wedi ei gwblhau |

**Disgrifiad o'r Safle:**
Mae'r safle oddi ar Heol Genwen ar gyrion dwyreiniol Llanelli a thua 1.5 cilometr i'r gorllewin o aber Afon Llwchwr. Mae'r safle'n mesur oddeutu 8 ha i gyd, gyda thua dwy ran o dair o'r tir i'r gogledd o Heol Genwen a'r gweddill i'r de o'r ffordd. Mae'r safle'n cynnwys pum cae o feintiau amrywiol (y mwyaf oddeutu 2.7 ha, y lleiaf oddeutu 0.25 ha) sy'n cynnwys glaswelltir sydd wedi cael ei led-wella ond sy'n brin o rywogaethau. Roedd ceffylau'n arfer pori arno ac mae wedi'i amgáu â gwrychoedd/llinellau prysgwydd heb eu trin. Mae nifer fechan o goed aeddfed o fewn y safle, wedi eu cyfyngu i ymylon y caeau, ac mae waliau ffermdy adfeiliedig yn agos i ganol y safle ychydig i'r gogledd o'r ffordd.

**Problemau a Chyfyngiadau Allweddol y Safle:**
- Mae'r safle wedi'i gwblhau

**Gofynion Seilwaith a Pholisi Allweddol (gan gynnwys y costau'n fras os ydynt yn hysbys):**
- Gwelliannau i Deithio Llesol
- Rheoli Gwastraff
- Gwelliannau i'r system garthffosiaeth gyhoeddus
- Gwelliannau priffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus – Cyfraniad o £295,000
- Cyfleusterau Addysgol – Cyfraniad o £204,000
- Man Agored Cyhoeddus – Cyfraniad o £240,000
- Gwelliannau Draenio Dŵr Wyneb – Cyfraniad o £50,000
- 20% o Dai Fforddiadwy ar y safle yn unol â pholisi AH1

**Gofynion Gwybodaeth Ategol Allweddol:**
- Mae'r safle wedi'i gwblhau.

[2] Mae'n bwysig nodi y bydd nifer o'r materion tystiolaethol y cyfeirir atynt wedi cael eu trafod fel rhan o'r cais cynllunio, gyda'r problemau wedi cael eu trin a'u datrys. Rhif y cais: S/15702 Cais Cynllunio: S/15702 (force.com)

## PrC2/h22 – Cwm y Nant, Dafen

| Enw/Cyf Dyraniad Safle | Maint y Safle (ha) | Math o Ddyraniad | Cyfanswm yr Unedau | Cyfran Graddoli |
|---|---|---|---|---|
| PrC2/h22 - Cwm y Nant, Dafen[3] | 8.5 | Preswyl | 202 | Blwyddyn 6-10 |

**Disgrifiad o'r Safle:**
Mae safle Cwm y Nant yn ddyraniad tai mawr yn Nafen, ar ochr ddwyreiniol Llanelli, ac roedd yn dir glas ffermio. Mae'r safle ychydig o bellter i ffwrdd oddi wrth Barc Manwerthu Trostre. Mae ardaloedd cyflogaeth mawr o fewn pellter cerdded, ardaloedd fel Parc Diwydiannol Dafen, Dyfed Steels a Pharc Masnach Dafen. I'r gogledd orllewin o'r safle mae Parc Dafen, Ysbyty'r Tywysog Phillip, Ysgol Gynradd Dafen, Ysgol Uwchradd Bryngwyn ac Ysgol Y Felin.

**Problemau a Chyfyngiadau Allweddol y Safle:**
- Mae'r safle wedi ei rannu'n gaeau bach gyda gwrychoedd coed sylweddol rhwng y caeau.
- Mae'r terfynau deheuol a gorllewinol yn ffinio â chymdogion. Dylid ystyried triniaeth yn ofalus.
- Mae'r safle'n goleddfu i lawr i bwynt isel gyda graddiannau amrywiol drwy'r safle
- Mae llinellau pŵer uwchben yn cychwyn yn yr is-orsaf drydan. Bydd rhaid dargyfeirio'r rhain.
- Mae prif bibell nwy gwasgedd canolig yn croesi rhan ogleddol y safle
- Prif gyflenwad nwy gwasgedd isel i gael ei ddargyfeirio.
- Amryw o nodweddion tanddaearol cloddio am lo
- Amryw fannau o ddŵr wyneb a charthffosydd budr i'w hystyried yn y parsel llai.
- Posibilrwydd i ystlumod glwydo.
- Brochfa moch daear ar y safle.
- Perygl Llifogydd Dŵr Wyneb Posibl.
- Mynedfeydd arfaethedig i gynyddu traffig drwy ardal breswyl bresennol – materion diogelwch.

**Gofynion Seilwaith a Pholisi Allweddol (gan gynnwys y costau'n fras os ydynt yn hysbys):**
- Man gwanhau draeniad
- Cae chwarae cymunedol
- Man Agored Cyhoeddus ar y safle
- Tai Fforddiadwy 20% yn unol â Pholisi AH1 y CDLl mabwysiedig.
- Addysg - £515,000

**Gofynion Gwybodaeth Ategol Allweddol:**
**Mae caniatâd cynllunio amlinellol gan y safle. Bydd angen i unrhyw gais manwl ystyried y canlynol ymhellach**
- Cynllun parcio a chyfleusterau troi
- Strategaeth Tynnu dŵr wyneb
- Cynllun draenio dŵr wyneb
- System draenio dŵr wyneb
- Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu
- Cynllun Gwella Teithio Llesol
- Cynllun Lliniaru Priffyrdd Oddi ar y Safle
- Strategaeth Ddraenio
- Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu
- System Goleuadau Allanol
- Gwiriad rhywogaethau a warchodir cyn-Adeiladu
- Cynllun Dylunio Ecolegol a'r Dirwedd (LEDS),
- Cynllun Rheoli Ecolegol y Dirwedd
- Cynllun Cyfyngiadau'r Dirwedd (LCP)
- Adroddiad Coed
- Cynllun Teithio
- Lliniaru Llwch
- Asesiad Sŵn
- Archwiliadau Cloddio Glo
- Adroddiad Coedyddiaeth
- Adroddiad Archeoleg

[3] Mae'n bwysig nodi y bydd nifer o'r materion tystiolaethol y cyfeirir atynt wedi cael eu trafod fel rhan o'r cais cynllunio, gyda'r problemau wedi cael eu trin a'u datrys. Rhif y cais: S/40692 Cais Cynllunio: S/40692 (force.com)

## PrC2/h23 – Porth Dwyreiniol Dafen[4]

| **Enw/Cyf Dyraniad Safle** PrC2/h23 – Porth Dwyreiniol Dafen[5] | **Maint y Safle (ha)** 5.4 | **Math o Ddyraniad** Preswyl | **Cyfanswm yr Unedau** 150 | **Cyfran Graddoli** Blwyddyn 6-15 |
|---|---|---|---|---|

**Disgrifiad o'r Safle:**
Mae safle Porth Dwyreiniol Dafen yn ddyraniad tai mawr ar ochr ddwyreiniol Llanelli. Mae'r safle ychydig o bellter i ffwrdd oddi wrth Barc Manwerthu Trostre ar dir glas ffermio. Mae ardaloedd cyflogaeth mawr gerllaw, ardaloedd fel Ystâd Ddiwydiannol Dafen, Dyfed Steels a Pharc Masnach Dafen. Mae'r dyraniad wedi'i leoli'n uniongyrchol ar yr A4138.

**Problemau a Chyfyngiadau Allweddol y Safle:**
- Perygl llifogydd dŵr wyneb posibl;
- Ecoleg
- Amwynderau (diogelu ardaloedd cyflogaeth cyfagos);
- Dŵr wyneb a gollyngiadau carthffosiaeth;
- Safleoedd Ewropeaidd a/neu Ryngwladol.
- Coed
- Ansawdd Aer
- Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop –
- Nodweddion a pheryglon hanesyddol cloddio am lo

**Gofynion Seilwaith a Pholisi Allweddol (gan gynnwys y costau'n fras os ydynt yn hysbys):**
- Angen posibl am welliannau i'r gylchfan ar yr A4138
- AHOM1: 25% Tai Fforddiadwy o dan y CDLl Diwygiedig, neu 20% Tai Fforddiadwy yn erbyn y CDLl mabwysiedig
- Darpariaeth mannau agored / mannau chwarae (cyfraniad neu ddarpariaeth ar y safle)
- Cyfraniad at Addysg: £378,000

**Gofynion Gwybodaeth Ategol Allweddol:**
- Cynllun parcio a chyfleusterau troi
- Strategaeth Tynnu dŵr wyneb
- Cynllun draenio dŵr wyneb
- System draenio dŵr wyneb
- Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu
- Cynllun Gwella Teithio Llesol
- Cynllun Lliniaru Priffyrdd Oddi ar y Safle
- Strategaeth Ddraenio
- Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu
- System Goleuadau Allanol
- Gwiriad rhywogaethau a warchodir cyn-Adeiladu
- Cynllun Dylunio Ecolegol a'r Dirwedd (LEDS),
- Cynllun Rheoli Ecolegol y Dirwedd
- Cynllun Cyfyngiadau'r Dirwedd (LCP)
- Adroddiad Coed
- Cynllun Teithio
- Lliniaru Llwch
- Asesiad Sŵn

[5] Mae'n bwysi nifer o'r materion tystiolaethol y cyfeirir atynt wedi cael eu trafod fel rhan o'r cais cynllunio, gyda'r problemau wedi cael eu trin a'u datrys. Rhif y cais: PL/04082 Cais Cynllunio: PL/04082 (force.com)

## SeC3/h4 - Tir yn Dinas Yard gynt

| **Enw/Cyf Dyraniad Safle** SeC3/h4 - Tir yn Dinas Yard gynt | **Maint y Safle (ha)** 2.703 | **Math o Ddyraniad** Preswyl | **Cyfanswm yr Unedau** 71 | **Cyfran Graddoli** Blwyddyn 6-10 |
|---|---|---|---|---|

**Disgrifiad o'r Safle:**
Mae'r safle arfaethedig yn cynnwys hen iard fasnachol gydag adeilad warws mawr wedi ei adael ar ochr ddwyreiniol Heol Pen-bre.Mae rhwydwaith o gaeau heb eu datblygu yn ffinio â'r safle ar yr ymylon dwyreiniol a gogleddol, ac wedi eu gorchuddio'n bennaf â rhannau o borfa wedi ei lled-wella. Oddi ar yr ymyl ogleddol ceir olion arglawdd rheilffordd, sydd bellach yn llwybr troed cyhoeddus y n arwain am rai cannoedd o fetrau i'r gogledd-ddwyrain i Lôn Stockwell. Mae'r safle oddeutu 2.7 ha gyda'r adeiladau presennol a'r iard yn Iard Dinas yn cymryd tua 50% o arwynebedd y safle.

**Problemau a Chyfyngiadau Allweddol y Safle:**

- Tir Halogedig
- Canclwm Japan
- Ecoleg Gyffredinol a Bioamrywiaeth
- Draenio
- Coed/gwrychoedd
- Pathewod
- Arolwg Moch Daear
- Mae angen Trwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop.

**Gofynion Seilwaith a Pholisi Allweddol (gan gynnwys y costau'n fras os ydynt yn hysbys):**
- Seilwaith Gwyrdd a Glas
- System Ddraenio Gynaliadwy
- 7.5% o'r anheddau i'w hadeiladu fel Anheddau Fforddiadwy
- Swm cyfnewid tuag at Addysg yn unol â Rhwymedigaeth Cynllunio mabwysiedig y Canllawiau Cynllunio Atodol.

**Gofynion Gwybodaeth Ategol Allweddol:**

**Mae Materion a Gadwyd yn Ôl wedi'u cymeradwyo ar gyfer y safle gyda'r dogfennau canlynol wedi'u cyflwyno fel rhan o'r cais:**
- Cynllun y Safle Math o Dŷ
- Cynllun Cyfyngiad ar Goed a Diogelu Coed
- Ardal Dirwedd y De ar gyfer Pathewod (LS-02);
- • Manylebau Tirwedd;
- Cynllun Rheoli Ecolegol
- Asesiad Effaith Sŵn
- Asesiad Ansawdd Aer
- Cynllun ar gyfer lliniaru llwch

## PrC2/SS1 - Pentre Awel

| Enw/Cyf Dyraniad Safle | Maint y Safle (ha) | Math o Ddyraniad | Cyfanswm yr Unedau | Cyfran Graddoli |
|---|---|---|---|---|
| PrC2/SS1 - Pentre Awel. [6] | 23 | Safle Strategol | 240 o Unedau Preswyl | Blwyddyn 6-15 |

**Disgrifiad o'r Safle**

Mae'r safle yn un strategol sy'n cynnwys 23 hectar o dir llwyd. Fe'i lleolir ar berimedr de-orllewinol Llanelli, tua 2km i'r de o ganol y dref. Bydd Pentre Awel yn darparu cyfleusterau a gwasanaethau sy'n hyrwyddo a gwella llesiant, yn integreiddio datblygiad busnes, addysg, gofal iechyd, hamdden, twristiaeth, cymorth llesiant ac ymchwil i wyddorau bywyd. Mae Cam 1 y datblygiad yn cael ei adeiladu.

**Problemau a Chyfyngiadau Allweddol y Safle:**

- Rhan o'r safle ym Mharth Llifogydd C1
- Rhywogaethau a Warchodir – Dyfrgwn, Ystlumod, Llygod Dŵr
- Materion Capasiti GTDG Llanelli
- Angen hawddfraint 16m ar hyd y garthffos gyfun danddaearol bresennol
- Gwaredu Clymog Japan
- Tir halogedig yn bennaf i'r gogledd o Afon Dafen Newydd

**Gofynion Seilwaith a Pholisi Allweddol (gan gynnwys y costau'n fras os ydynt yn hysbys):**

- Cyflenwad Dŵr – DCWW
- GTDG Llanelli
- Gofynion Seilwaith Gwyrdd
- Draenio Dŵr Wyneb
- Gwelliannau ac ail-leoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Safleoedd bysiau a chynllun ar gyfer darparu gwasanaeth bws cyhoeddus i wasanaethu'r safle
- Cyswllt teithio llesol rhwng Cylchfan Copperhouse a'r gyffordd â Ffordd Northumbria – Cyfraniad £47,000
- Gwelliannau priffyrdd yng Nghylchfan Heol y Sandy - Cyfraniad o £40,000
- Man Agored Chwarae ar y safle
- Darpariaethau byw â chymorth

**Gofynion Gwybodaeth Ategol Allweddol:**
**Mae caniatâd cynllunio amlinellol gan y safle. Efallai y bydd angen i unrhyw geisiadau manwl pellach ar gamau ar y safle yn y dyfodol ystyried y canlynol**

- Asesiad Trafnidiaeth
- Adroddiad Modelu Hydrolig
- Datganiad Amgylcheddol
- Asesiad o Ganlyniad Llifogydd
- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Strategaeth Ddraenio
- Astudiaeth Ddesg Geodechnegol a Geoamgylcheddol
- Asesiad Modelu Hydrolig Dŵr Glân
- Adroddiad Prawf yr Effaith Arwyddocaol Debygol (TLSE)

---

Mae'n bwysig nodi y bydd nifer o'r materion tystiolaethol y cyfeirir atynt wedi cael eu trafod fel rhan o'r cais cynllunio, gyda'r problemau wedi cael eu trin a'u datrys. Rhif y cais: S/36948
http://online.carmarthenshire.gov.uk/eaccessv2/pa-applicationsummary.aspx?applicationnumber=S/36948

## SeC4/h1 – Fferm Gwdig

| Enw/Cyf Dyraniad Safle | Maint y Safle (ha) | Math o Ddyraniad | Cyfanswm yr Unedau | Cyfran Graddoli |
|---|---|---|---|---|
| SeC4/h1 – Fferm Gwdig[7] | 4.193 | Preswyl | 105 | Blwyddyn 1-10 |

**Disgrifiad o'r Safle:**
Lleolwyd y safle ym Mhorth Tywyn. Mae'r safle'n afreolaidd ei siâp ac yn gorchuddio arwynebedd o tua 4.21 hectar. Mae terfynau'r safle wedi eu diffinio gan Heol Pwll i'r de, ffordd fynediad bresennol a rhywfaint o ddatblygiad preswyl i'r gorllewin, tir heb ei ddatblygu yn bennaf i'r gogledd gyda pheth eiddo preswyl unigol, ac eiddo presennol a chyn chwarel i'r dwyrain. Mae hen adeilad Gwesty'r Gwdig, sydd bellach yn adfail, i'r gogledd-ddwyrain o brif ran y safle a cheir mynediad ato ar hyd ffordd fechan sy'n croesi'r safle o Heol Pwll.

**Problemau a Chyfyngiadau Allweddol y Safle:**

- Ystlumod Pedol Mawr wedi eu canfod yn union gerllaw safle'r cais
- Awdurdod Glo – Ardal ddatblygu Risg Uchel
- TPO/S2
- Tir Halogedig
- Hanes cloddio am lo yn yr ardal
- Mae'r safle wedi ei leoli ar lethr

**Gofynion Seilwaith a Pholisi Allweddol (gan gynnwys y costau'n fras os ydynt yn hysbys):**

- Gwelliannau i gyfleusterau addysgol yn yr ardal leol – Cyfraniad o £66,000
- Darpariaeth Teithio Llesol ar y Safle
- Cyflenwad Dŵr – DCWW
- GTDG – Llanelli
- Lle Chwarae a Mannau Agored
- 20% o Dai Fforddiadwy ar y safle yn unol â pholisi AH1

**Gofynion Gwybodaeth Ategol Allweddol:**

**Mae gan y safle ganiatâd cynllunio llawn gyda chwblhad y safle yn 2023/2024.**

[7] Mae'n bwysig nodi y bydd nifer o'r materion tystiolaethol y cyfeirir atynt wedi cael eu trafod fel rhan o'r cais cynllunio, gyda'r problemau wedi cael eu trin a'u datrys. Rhif y cais: S/36993 Cais Cynllunio: S/36993 (force.com)

## SeC4/h2 – Harbwr Porth Tywyn

